

**RHAGAIR GAN Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)**

Mae'r Datganiad Cyfrifon hwn yn egluro cyllid Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod blwyddyn ariannol 2009/10, a'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn honno. Mae'n dilyn safonau cyfrifeg ac o'r herwydd yn dechnegol mewn rhannau. Mae'r rhagair hwn yn crynhoi'r prif nodweddion.

<b>C Y N N W Y S</b>	<b>Tudalen</b>
Rhagair gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)	1 - 4
Datganiad Polisiâu Cyfrifeg	5 - 12
<u>Y Prif Ddatganiadau Ariannol</u>	
Cyfrif Incwm a Gwariant	13
Datganiad Symudiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor	14 and 15
Datganiad ar Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig	16
Y Fantolen	17
Datganiad Llif Arian	18
Nodiadau ar y Prif Ddatganiadau Ariannol	19 - 51
<u>Datganiadau Ariannol Ychwanegol</u>	
Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Tai	52
Datganiad Symudiadau ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai	53
Nodiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai	54 - 56
Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon	57 - 58
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	59 - 63
Adroddiad yr Archwiliwr	64 - 65

Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn dangos y gost net gyffredinol am y flwyddyn yng nghyswllt yr holl swyddogaethau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt a dangosir hefyd sut mae'r gost yn cael ei chyllido. Ar sail incwm a gwariant, dengys y datganiad warged o £4.2 miliwn yn 2009-10 ar y cyfrif refeniw.

Wedyn mae'r Datganiad Symudiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor yn cysoni'r gwaged a ddangosir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant gyda'r newid ym Malans Cronfa'r Cyngor. Dengys y datganiad, wrth droi at y sail a ddefnyddiwyd i benderfynu ar beth a gyllidir o grantiau a threthi, bod y cyfrif refeniw mewn gwaged o £1.0 miliwn. Mae'r gwahaniaeth rhwng hwn a'r gwaged yn y cyfrif Incwm a Gwariant i'w briodoli'n bennaf i'r treuliau am ddibrisiant ac ailbrisiad o asedau sefydlog yn y cyfrif Incwm a Gwariant.

Yn y Datganiad ar Gyfanswm yr Enillion a Cholledion cydnabyddedig dygir ynghyd ganlyniadau terfynol y Cyfrif Incwm a Gwariant gydag enillion a cholledion eraill a dangosir bod gwerth net y Cyngor wedi lleihau gan £62.7 miliwn yn y flwyddyn 2009/2010, ar y fantolen, yn bennaf oherwydd cynnydd yn yr ymrwymiad net yn y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Pensiynau.

Mae'r Fantolen yn dangos mai gwerth net asedau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2010, fel y cânt eu diffinio yn awr gan SORP, oedd £34.2 miliwn.

Mae'r Datganiad Llif Arian yn ailddatgan y sefyllfa gyllidol yn nhermau arian a dengys bod sefyllfa arian y Cyngor wedi cynyddu o £1.0 miliwn, gyda lleihad cyfatebol yn yr adnoddau hylifol eraill, yn adlewyrchu defnydd o gyfrifon adneuron arian ar ddiwedd y flwyddyn.

Dengys y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Tai yr incwm a gwariant a gafwyd wrth ddarparu tai Cyngor.

Dengys Datganiad Symudiadau yn y Cyfrif Refeniw Tai sut mae'r diffyg Cyfrif Incwm a Gwariant y CRT yn cyfateb i'r newid ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn.

## **ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN**

Roedd cyllideb refeniw 2009/10 yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd a chynlluniau creu incwm ym mhob gwasanaeth ac ambell ddatblygiad i wasanaethau. Cyllidwyd y gyllideb drwy grantiau o'r Cynulliad Cenedlaethol a thrwy gynydd o 3.0% ym Mand D y Dreth Gyngor.

Roedd perfformiad ar y gyllideb refeniw yn galonogol: ar y cyfan, bu tanwariant ar y cyllidebau corfforaethol a chafwyd symiau mawr o incwm annisgwyl; cadwodd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn gyfforddus o fewn eu cyllidebau. Parhawyd i danwario ar y cyllidebau gwastraff, tanwariant o £1.0m eleni a oedd yn adlewyrchiad o'r lleihad sylweddol yn nifer y tunelli o wastraff a ddanfonwyd i safleoedd tirlenwi a chostau is mewn rhannau o'r gwasanaeth. Gwnaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol gynydd da o safbwynt rheoli eu gwasanaethau'n ariannol gan wario £0.5 miliwn yn llai na'r gyllideb flynyddol a oedd yn golygu bod modd talu'n ôl y gweddill o'r diffyg ar gyfer y gwasanaeth a oedd wedi cronni llynedd.

Wrth i'r dirywiad economaidd barhau i effeithio'r economi leol yn ystod y flwyddyn, dangosodd y canlyniadau ddiffyg ar rai cyllidebau incwm. Nid oedd angen cyfran helaeth o'r swm o £0.9m a oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb fel arian wrth gefn ar gyfer chwyddiant ac fe'i dychwelwyd i'r balansau.

Fodd bynnag, gorwariwyd £0.6m ar y gyllideb Addysg a hynny'n bennaf oherwydd cost integreiddio disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif lif.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd yr ysgolion oherwydd gwariant net, i ostwng rhywfaint ar eu harian wrth gefn o £3.246 miliwn i £3.145 miliwn (cyfanswm). Mae cyfanswm arian wrth gefn yr ysgolion yn parhau'n uchel o'i gymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru. Cyfyngir yr arian i'w ddefnyddio gan yr ysgolion unigol ac mae sefyllfa'r ysgolion unigol yn amrywio. Roedd gan bedair ysgol ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ond mae nifer o ysgolion eraill yn rhagweld diffyg yn y dyfodol.

<b>CRONFA'R CYNGOR</b>	<b>Cyllideb Gwreiddiol £'000</b>	<b>Gwirioneddol £'000</b>
Gwariant Cyfredol	108,424	103,877
Cyllido Cyfalaf a Llog	6,872	9,525
Ardollau a Phreseptau	9,036	9,187
	124,332	122,589
Grant Cymorth Refeniw a Grantiau Cyffredinol Eraill	(75,138)	(75,073)
Treth Annomestig Genedlaethol	(18,787)	(18,787)
Trethi Lleol	(28,787)	(28,759)
Diffyg /(Gwarged) a Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn	1,620	(30)
Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	(620)	(1,082)
Diffyg /(Gwarged) a Newid yn y Balansau Cyffredinol	1,000	(1,112)

Dangosir isod yr eitemau mwyaf yn y gyllideb gyfalaf. Ni chafodd unrhyw brosiect mawr ei gwblhau yn ystod y flwyddyn er bod y rhan fwyaf o'r gwaith ar Gynllun Adfywio Ffisegol Llangefni wedi'i gwblhau ac eithrio gwaith ar Neuadd y Sir.

Bu cynnydd o 50% ar y gwariant ar dai cyngor o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf oherwydd cwblhau ail flwyddyn y rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Roedd hyn yn golygu defnyddio £3.6m o fenthyciadau digefnogaeth i ategu at adnoddau craidd y Cyfrif Refeniw Tai.

Cychwynnodd dau o brosiectau Cydgyfeiriant mawr (cyllid Ewrop) yn ystod y flwyddyn: prosiect y Tair Tref a'r prosiectau amgylchedd arfordirol.

<b>PROSIECTAU CYFALAF MAWR</b>	<b>Gwariant yn y Flwyddyn £'000</b>	<b>Cyfanswm y Prosiect £'000</b>
Stoc Dai - Pecynau Mewnol Safon Ansawdd Tai Cymru	5,679	35,000
Uwchraddio Ysgol Uwchradd Caergybi	2,056	2,056
Adfywio Tair Tref	618	8,738
Adfywio Canol Tref Biwmares	490	529
Depo Priffyrdd Newydd	718	750
Adfywio Ffisegol Llangefni	828	1,887
Amgylchedd Arfordirol	615	5,582

Cyllidwyd y Gyllideb Gyfalaf gan gymysgedd o grantiau gan gyllidwyr allanol, benthyciadau, adnoddau refeniw a derbyniadau cyfalaf. Mae Angen Cyllid Cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn yn is nag a ragwelwyd pan osodwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Gan adlewyrchu'r benthyciadau ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru a dal i fyny gyda'r defnydd o fenthycia gyda chefnogaeth, cynyddodd dyledion allanol gan £7.5 miliwn ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd y ffigwr yn £97.6 miliwn. Ni chafodd unrhyw ddyledion eu had-drefnu yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr ymrwymadau cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn yn £8.9 miliwn (2.4m yn 2008/09). Mae cyfanswm o £6.2 miliwn, ynghyd â benthyciadau wedi eu cymeradwyo ond heb eu defnyddio a oedd yn £1.0 miliwn yn ychwanegol, wedi eu neilltuo tuag at yr ymrwymadau hyn a chynlluniau eraill sydd wedi eu rhaglennu erbyn y dyfodol. Bydd cynlluniau eraill yn cael eu cyllido o grantiau a gymeradwywyd, derbyniadau o werthiannau asedau a ragwelwyd a benthyciadau.

Mae'r Cynllun Cyfalaf yn ddibynnol ar adnoddau grantiau, derbyniadau cyfalaf disgwylidig, ac ar lefel o fenthyciadau yn agos i'r lefel ddisgwylidig gan y Cynulliad Cenedlaethol pan yn cyfrifo cymorth refeniw. Mae'r sefyllfa economaidd wedi cael effaith ar ragolygon o werthiannau asedau ac mae'r Cynllun Cyfalaf yn cael ei ddiwygio at gyfer y newidiadau yma.

Mae nifer fechan o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer benthyciadau heb gefnogaeth i'w cyllido drwy gyllidebau neu ffynonellau incwm newydd. Y mwyaf nodedig o'r rhain yw'r prosiect SATC sy'n cael ei gyllido'n rhannol yn y modd hwn o 2010 ymlaen.

### **Y SEFYLLFA ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2010**

Mae gwerth net yr Awdurdod, fel y dangosir ar y fantolen, wedi lleihau o £62.7 miliwn, yn bennaf oherwydd newid yn ymrwymiad Pensiwn net y Cyngor, ond yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd yng ngwerth tai'r cyngor. Mae'r datganiad yn dangos amcangyfrif ymrwymiad net o £135.9 miliwn yn ymwneud â phensiynau, wedi codi o £69.0 miliwn ar 31 Mawrth 2009. Mae'r amcangyfrif yma'n dibynnu'n fawr ar y tybiaethau a wnaed ac mae'r cynnydd dros y flwyddyn i'w briodoli'n bennaf i newid yn y graddfa llog a ddefnyddiwyd i ddisgowntio asedau a rhwymedigaethau'r dyfodol. Byddai'r newid ym mynegai dyfodol cynyddiadau pensiwn, a gyhoeddwyd ar ôl dyddiad y fantolen, wedi lleihau amcangyfrif y rhwymedigaeth.

Yr asesiad gorau o gadernid cyllidol yw i ba raddau y mae'r awdurdod wedi gwneud darpariaethau ar gyfer ymrwymadau gwybyddus a faint o arian wrth gefn dosbarthadwy sydd ar gael ar gyfer risgiau eraill. Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaethau ar gyfer ymrwymadau gwybyddus ac wedi sefydlu arian wrth gefn lle mae'n ofynnol drwy'r gyfraith, lle mae wedi ei glustnodi drwy gynlluniau'r Cyngor, neu lle mae'n bwyllog a doeth ar gyfer risg neu ansicrwydd. Er bod bwriad i ddefnyddio £1 miliwn o'r balansau cyffredinol ac £0.4 miliwn o arian wrth gefn clustnodedig i gefnogi cyllideb 2009/10, nid oedd angen y cyfraniad o'r balansau cyffredinol ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd y balansau cyffredinol yn £5.8m. Mae cyfanswm o £2.3 miliwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer costau yn codi o'r Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi, er nad yw hyn yn amcangyfrif o unrhyw ymrwymiad gwirioneddol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £3.1 miliwn yn arian wrth gefn yr ysgolion, £2.4 miliwn yn y Cyfrif Refeniw Tai ac roedd £12.3 miliwn yn yr arian wrth gefn clustnodedig. Mae cyfanswm yr arian wrth gefn clustnodedig wedi cynyddu, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn arian wrth gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn ac arian wrth gefn Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi. Roedd rhain yn cael eu gwrthbwyso yn rhannol gan leihad yn yr arian wrth gefn Gwasanaeth, a chrafangu'n ôl arian wrth gefn clustnodedig i gefnogi'r gyllideb.

Mae'r economi a'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus wedi dirywio'n fawr yn ystod 2009-10. Mae rheoli cyllid yn ddarbodus a bwriad ymwybodol i gronni arbedion wedi atgyfnerthu adnoddau ariannol. Mae'n debyg y bydd angen y rhain i helpu i reoli'r sefyllfa sy'n dirywio.

#### **GWYBODAETH ARALL**

Mae gwybodaeth gyllidol arall ar gael ar safle gwe y Cyngor: [www.ynysmon.gov.uk/cyllid](http://www.ynysmon.gov.uk/cyllid)  
Mae'r dogfennau y cyfeirir atynt yn y Datganiad Cyfrifon ar gael gan yr Adran Gyllid, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW oni bai y rhoddir cyfeiriad arall.

**DATGANIAD POLISIÂU CYFRIFEG****1. EGWYDDORION CYFFREDINOL**

Paratowyd y cyfrifon hyn yn ôl Côt Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Gyfunol (Y SORP) a gyhoeddwyd ym 2009 gan y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) sydd yn mabwysiadu Côt Ymarfer Cyfrifeg Gwerth Gorau. Cost hanesyddol yw'r confensiwn cyfrifo a fabwysiadwyd, wedi'i addasu gan ailbriso ambell gategori o asedau sefydlog diriaethol.

**2. ASEDAU SEFYDLOG**

Cyfafeir gwariant ar brynu, creu neu wella asedau sefydlog ar sail cronni gwariant cyn belled â bod yr ased yn rhoi budd am gyfnod o ragor na blwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys gwariant o lai na £10,000 na chynnal a chadw arferol i asedau - sy'n cael eu codi i gyfrif refeniw'r gwasanaeth. Mae gwariant sydd wedi ei gyfalafu yn briodol yn ystod y flwyddyn, ond sydd ddim yn ychwanegu at werth yr ased, yn cael ei ddileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn honno.

Paratowyd y Fantolen gan ddefnyddio'r argymhellion sydd yn y SORP ar sut i drin asedau sefydlog. Mae'r Asedau Sefydlog wedi eu rhannu i Asedau Sefydlog Anniriaethol ac Asedau Sefydlog Diriaethol. Mae'r ail o'r rhain wedi eu categoreiddio ymhellach fel "Eiddo Gweithredol" ac "Eiddo Anweithredol" a'u cynnwys yn y Fantolen fel a ganlyn:-

- a) Prisiwyd tir ac eiddo gweithredol yn ôl eu gwerth cyfredol yn eu defnydd presennol net o ddibrisiant, heblaw am asedau arbenigol a brisir ar gost adnewyddu dibrisiedig.
- b) Mae asedau anweithredol gan gynnwys eiddo buddsoddi ac asedau dros ben sydd i'w gwerthu yn cael eu priso yn ôl eu gwerth ar y farchnad llai dibrisiant, hynny yw, yn ôl egwyddorion masnachol.
- c) Isadeiledd: Mae asedau newydd a datblygiadau yn cael eu cynnwys ar gost adeiladu net o ddibrisiant. Roedd gwerth asedau megis priffyrdd oedd yn bodoli ar 1 Ebrill 1994 wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar ffigwr yn adlewyrchu benthyca heb ei ryddhau ar y dyddiad yna ac fe'i ysgrifennir i lawr yn flynyddol.
- ch) Nodir gwerth asedau cymunedol, megis parciau ac ardaloedd agored, yn ôl eu gwerth nominal. Prisiwyd casgliad celf y Cyngor yn Awst 2007 gan brisiwr proffesiynol allanol ac adlewyrchodd y pris yma y gwerth ar y farchnad. Mae hyn yn groes i'r SORP sydd yn dweud y dylai gwerth asedau o'r fath fod ar gost hanesyddol. Ystyrir gwerth ar y farchnad yn ffordd fwy addas o nodi gwerth i'r Cyngor.
- d) Mae offer a cherbydau yn cael eu cynnwys ar gost hanesyddol net o ddibrisiant.

Pan fo ased sefydlog diriaethol wedi ei gynnwys yn y Fantolen ar werth cyfredol, fe'i ailbrisir yn ffurfiol o leiaf bob pum mlynedd gan gynnwys y gwerth newydd yn y Fantolen. Mae gwerth yr asedau hyn yn cael ei adolygu yn flynyddol a gall gwerth categorïau penodol o asedau gael ei ddiweddarau os oes newid o sylwedd yng ngwerth y categorïau hynny. Bydd unrhyw amhariad o asedau a adnabyddir gan yr adolygiad yma yn cael sylw yn unol â pholisi cyfrifo'r Cyngor ar amhariad (gweler Polisi 5).

Am bob cynnydd yng ngwerth yr asedau, bydd credyd cyfatebol yn y Gronfa Ailbriso i gydnabod enillion heb gael eu gwireddu. Mae'r Gronfa Ailbriso yn cynnwys enillion ailbriso sydd wedi'u cydnabod ers 1 Ebrill 2007. Mae enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwn wedi'u hymgorffori yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Mae Asedau Sefydlog Anniriaethol yn cael eu cyfalafu pan fyddant yn dod â budd i'r Cyngor am fwy nag un flwyddyn ariannol (e.e. trwyddedau meddalwedd). Maent yn cael eu hamorteiddio dros oes economaidd yr ased ac yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar gost hanesyddol net o'r amorteiddio.

### **3. GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR O GYFALAF YN UNOL Â STATUD**

Taliadau yw'r rhain o natur gyfalaf lle nad oes asedau yn cael eu creu ym Mantolen y Cyngor. Mae holl wariant refeniw yn y flwyddyn a gyllidir o gyfalaf yn unol â statud yn cael ei ysgrifennu i lawr fel gwariant i'r cyfrif refeniw gwasanaeth perthnasol yn y flwyddyn. Ble mae'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â'r gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf yn unol â statud o adnoddau cyfalaf sy'n bodoli neu drwy fenthycia, mae trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf wedyn yn gwyrddroi'r treuliau yn y Datganiad Symudiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor i sicrhau na fydd effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

Ystyrir grantiau adnewyddu ac unrhyw symiau a dderbynnir yn ymwneud â'r cynllun Prynu Tai gyda chymorth y Cyngor, fel gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf yn unol â statud ac os telir y symiau yma'n ôl yn ystod y flwyddyn, fe'u credydir yn ôl i'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn y derbynnir hwy.

Mae nodyn 4 yn dangos y gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf yn unol â statud am y flwyddyn.

### **4. DIBRISANT**

Darperir dibrisiant i'r holl asedau sefydlog diriaethol sydd ag oes benodol yn unol â'r polisi a ganlyn:

- Nid yw asedau sydd newydd eu prynu nac asedau sydd wrthi'n cael eu codi yn dibrisio hyd oni fyddant yn cael eu defnyddio;
- Pennir dibrisiant trwy ddileu'r gost, neu ailbrisiad yr ased, llai amcangyfrif o'r gwerth fydd yn weddill, ar y sail ganlynol:-
  - Mae adeiladau yn dibrisio dros amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr ased (amrywiol, hyd at 100 mlynedd) gan ddefnyddio'r dull llinell syth;
  - Dibrisir isadeiledd fel arfer dros ddeng mlynedd ar hugain gan ddefnyddio'r dull llinell syth;
  - Mae cerbydau ac offer yn dibrisio dros amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr ased, fel arfer yn 5-7 mlynedd er gall fod hyd at 15 mlynedd, gan ddefnyddio'r dull llinell syth;
  - Nid yw Tiroedd yn cael eu dibrisio.
  - Nid yw Asedau Cymunedol yn cael eu dibrisio – yn bennaf, y casgliad celf yw hyn ac nid yw'n cael ei ddibrisio oherwydd bywyd economaidd defnyddiol estynedig yr ased.

Hefyd, mae enillion ailbrisiu yn cael eu dibrisio yn ôl swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth dibrisiant cyfredol a godir ar asediau ar y naill law a'r dibrisiant fyddai wedi cael ei godi ar sail costau hanesyddol ar y llaw arall. Mae'r swm hwn yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiu i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### **5. AMHARIAD**

Adolygir Asedau Sefydlog Diriaethol a rhai Anniriaethol am amhariad ar ddiwedd pob cyfnod yr adroddiad ariannol.

Pan fo amhariad yn cael ei adnabod, mae'r driniaeth gyfrifo yn dibynnu ar natur yr amhariad:

- Os yw'r amhariad yn ymwneud â defnydd amlwg o fuddiannau economaidd (tebyg i ddibrisiant) yna codir y swm yn erbyn Cyfrif Refeniw'r Gwasanaeth a'i neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf trwy Ddatganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor. Bydd unrhyw swm sy'n cael ei neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn cael ei ostwng yn ôl gwerth unrhyw enillion ailbrisiu sy'n cael eu dal yn y Gronfa Ailbrisiu ar gyfer yr ased unigol (y swm isaf o'r golled amhariad neu o'r elwa drwy ailbrisiu).

- Os yw'r amhariad yn dilyn gostyngiad cyffredinol mewn prisiau neu unrhyw reswm arall yna mae'n cael ei ddileu yn erbyn unrhyw enillion ailbriso sy'n cael eu dal yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr ased unigol hwnnw (y swm isaf o'r golled yn dilyn amhariad neu o'r cynnydd yn dilyn ailbriso). Os yw'r golled yn dilyn amhariad yn fwy na gwerth yr enillion ailbriso yna mae'r swm dros ben yn cael ei ddileu yn erbyn Cyfrif Refeniw'r Gwasanaeth a'i roi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf trwy Ddatganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor.

## 6. **CAEL GWARED AG ASED AU SEFYDLOG DIRIAETHOL**

Rhoddir cyfrif ar sail croniant am incwm o werthu asedau. Mae cyfran o dderbyniadau o werthiant tai cyngor (75%) yn cael ei rhoi i un ochr yn wirfoddol ar gyfer ad-dalu dyledion er mwyn adlewyrchu'r rhagdybiaethau a wnaed wrth gyfrifo Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r derbyniadau cyfalaf hynny y mae modd eu defnyddio yn cael eu dal yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiol hyd oni ddaw'r amser i'w defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf arall neu i ad-dalu dyled. Mae'r derbyniadau net o werthu ased (gwerth y derbyniad a ddaeth i law wedi tynnu gwerth gweddilliol yr ased adeg y gwerthu) yn cael eu rhoi drwy greddyd i'r y Cyfrif Incwm a Gwariant.

Nid yw'r gwerth sy'n cael ei ddileu pan geir gwared ag asedau yn gost yn erbyn y Dreth Gyngor gan fod darpariaeth lawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau cyllido cyfalaf ar wahân. Mae'r symiau yn cael eu rhoi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf o'r Datganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor. Mae unrhyw enillion ailbriso sy'n cael eu dal yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr ased unigol yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Gall tenantiaid sy'n prynu eu Tai Cyngor o dan y Cynllun Hawl i Brynu hawlio disgownt sy'n lleihau'r pris gwerthu. Os bydd y disgownt yn cael ei ad-dalu yn ddiweddarach, bydd yn cael ei drin fel ennill ar werthiant asedau sefydlog a chredydif ef i'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn y derbyniwyd yr incwm.

Ble caiff asedau eu gwerthu ac nid oes ganddynt werth ar y fantolen, a lle caiff yr incwm ei ystyried fel derbyniad cyfalaf, caiff ei drin fel ennill ar werthiant asedau sefydlog a chredydif ef i'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn y derbyniwyd yr incwm ynddi.

## 7. **SAIL Y TREULIAU AM ASED AU SEFYDLOG**

Yn flynyddol codir ar y cyfrifon refeniw i'r gwasanaethau ac ar y cyfrifon statudol ddarpariaeth ar gyfer dibrisiant yng nghyswllt yr holl asedau sefydlog a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau.

Wedyn mae'r darpariaethau dibrisiant yn cael eu gwrthdroi allan yn y Datganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor fel bod y treuliau hyn yn cael effaith niwtral ar wariant gweithredol net a chyffredinol Cronfa'r Cyngor ac ar Gyfrif Refeniw Tai y Cyngor.

Mae gwariant gweithredol net yn cynnwys cyfrif am eitemau nad ydynt yn eitemau refeniw ac nad yw'n briodol iddynt gael effaith ar y Dreth Gyngor neu Renti Tai. O ganlyniad, wedi datgan y gwariant gweithredol net, mae'n rhaid wrth ail gysoniad i dynnu allan yr eitemau nad ydynt yn eitemau refeniw (dibrisiant ac amorteddio grantiau'r llywodraeth a ohiriwyd) a rhoi'r Lleiawswm Cyfraniad Refeniw yn eu lle.

## 8. **CRONFEYDD CYFALAF WRTH GEFN**

Sefydlwyd Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn yn ôl gofynion y SORP ynglŷn â chyfrifo am Asedau Sefydlog.

Cronfa annosbarthiadwy yw'r Gronfa Ailbriso sydd yn cynrychioli'r balans o'r enillion ailbriso na chawsant eu gwireddu ac a grëwyd (ers 1 Ebrill 2007) o ddal asedau sefydlog.

Yn y Cyfrif Cyllido Cyfalaf y mae'r symiau sydd wedi'u neilltuo o refeniw neu o dderbyniadau cyfalaf ar gyfer cyllido gwariant ar asedau sefydlog, sef symiau i ad-dalu benthyciadau allanol a thrafodion cyllido cyfalaf penodol eraill.

## 9. **BUDDSODDIADAU AC ASED AU ARIANNOL ERAILL**

Mae'r asedau ariannol yn ymrannu'n ddau gategori:

- Benthyciadau a derbyniadwyon - asedau gyda thaliadau penodol neu rai y mae modd eu pennu ond heb eu rhestru mewn marchnad fyw.
- Asedau ar gael i'w gwerthu - asedau gyda phris ar y farchnad a/neu heb daliadau penodol neu rai y mae modd eu pennu.

### **Benthyciadau a Derbyniadwyon**

Ar y cychwyn mae benthyciadau a derbyniadwyon yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg ac yn cael eu cludo yn ôl y gost amorteiddiedig. Mae'r credydau blynyddol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar swm cludadwy ased wedi ei luosi gan y raddfa llog perthnasol i'r offeryn. Yn achos y benthyciadau a drefnwyd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu bod y swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yn cyfateb i'r prif swm derbyniadwy (ynghyd â llog sydd wedi cronni) a'r llog a roddwyd mewn credyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yw'r swm a geir yn y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Pan fo asedau yn cael eu nodi fel rhai sy'n destun amhariad a hynny oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar beth a ddigwyddodd yn y gorffennol, na fydd taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno, yna rhoddir gostyngiad yn erbyn yr ased a chodi am hynny ar y Cyfrif Incwm a Gwariant. Bydd unrhyw enillion neu unrhyw golledion sy'n codi oherwydd dadgydnabod yr ased yn cael eu rhoddi mewn credyd/debyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

### **Asedau ar gael i'w gwerthu**

Ar y cychwyn mae'r asedau sydd ar gael i'w gwerthu yn cael eu mesur a'u cludo yn ôl eu gwerth teg. Pan fo asedau gyda thaliadau penodol neu rai y mae modd eu pennu, yna mae'r credydau blynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant am log a dderbynnir yn seiliedig ar gost amorteiddiedig yr ased a'r gost honno wedi ei luosi gan raddfa llog perthnasol i'r offeryn. Yn absenoldeb unrhyw daliadau penodol neu rai y mae modd eu pennu, mae'r incwm (e.e. difidend) yn cael ei roddi mewn credyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant pan fydd hwnnw ar gael i'r Cyngor. Cedwir yr asedau yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg. Mae'r gwerthoedd yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Offerynnau gyda phrisiau a nodir ar y farchnad - pris y farchnad.
- Offerynnau eraill gyda thaliadau penodol neu rai y mae modd eu pennu - dadansoddiad o'r llif arian ar ôl disgownt.
- Cyfrannau ecwiti heb brisiau wedi eu nodi ar y farchnad - asesiad annibynnol o werth y cwmni.

I gydabod unrhyw newidiadau yn y gwerth teg rhoddir cofnod yn y Gronfa ar Gael i Werthu a bydd cydnabyddiaeth i'r enillion/colledion yn y Datganiad ar Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig.

Y mae eithriad - sef pan ddigwyddo colledion amhariad - rhoddir y rhain mewn debyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, ynghyd ag unrhyw golledion/enillion net i'r ased a gronnwyd yn y gronfa wrth gefn.

Pan nodir fod asedau yn wynebu amhariad oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar ddigwyddiad yn y gorffennol, na fydd y taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno, nodir gostyngiad i'r ased a chodir am hynny yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n digwydd yn sgil dadgydnabod yr ased yn cael eu gosod mewn credyd/debyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ynghyd ag unrhyw enillion/colledion cronedig a gafodd eu cydnabod cyn hynny yn y Datganiad ar Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig.

Onid oes modd mesur y gwerth teg mewn ffordd ddibynadwy, mae'r offeryn yn cael ei gludo yn ôl cost (a thynnu ohono unrhyw golledion amhariad).



**10. DIDDORDEB MEWN CWMNIAU AC ENDIDAU ERAILL**

Mae buddsoddiadau'r Cyngor mewn cwmnïau ac endidau eraill yn ymddangos yn y Fantolen fel gwerth teg neu, pan nad yw'n bosib mesur gwerth teg yn ddibynadwy, fel y gost wreiddiol, gyda darpariaeth yn cael ei gwneud, fel yn briodol, ar gyfer unrhyw golledion amhariad.

Pan fo'r Cyngor â budd mewn corff cysylltiedig ac yn cael buddiannau o'r corff ond hefyd yn wynebu'r risgiau cysylltiedig yna bydd y Cyngor yn penderfynu gyda golwg ar eu sylwedd a fydd angen Datganiadau Cyllidol Cyfun yn unol â gofynion y SORP. Wrth benderfynu ar y dull cyfrifo yng nghyswllt y budd sydd ganddo mewn corff bydd y Cyngor yn rhoddi sylw i faint o ddylanwad ac o reolaeth sydd ganddo dros y corff hwnnw. Nid oes unrhyw berthynas grwp.

**11. YMRWYMIADAU CYLLIDOL - BENTHYCIADAU A THALU DYLEDION**

Ar y cychwyn mae ymrwymadau cyllidol yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg ac yn cael ei gludo yn ôl y gost wedi'i amorteiddio. Mae'r treuliau blynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer llog taladwy yn seiliedig ar y swm i'w ddwyn ymlaen ar gyfer yr ymrwymiad wedi ei luosi gan y raddfa llog perthnasol i'r offeryn. Ar gyfer portffolio'r Cyngor, mae hyn yn golygu bod y swm a gyflwynir yn y Fantolen yn cyfateb i'r prif swm derbyniadwy plws llog wedi ei gronni hyd at 31 Mawrth, a'r llog a godir yn erbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant yw'r swm taladwy am y flwyddyn yn y cytundeb llog. Mae'r symudiad yn y swm sy'n cael ei gario ar gyfer y cyfnod yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cost y llog a godir yn erbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant ar y naill law a'r arian dalwyd, y prif swm a'r llog, ar y llaw arall.

Mae'r enillion a'r colledion ar adbryniant neu setliad cyn pryd o fenthyciadau yn cael eu credu a'u debydu i'r Gwariant Gweithredol Net yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ym mlwyddyn yr adbryniant/setliad. Fodd bynnag, pan mae'r adbryniant wedi ei wneud fel rhan o'r gwaith ailstrwythuro o'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, yna mae'r premiwm neu'r disgownt unai'n cael eu dileu o neu eu hychwanegu at y gost amorteiddiedig o'r benthyciad newydd neu sydd wedi ei addasu, gyda'r gostyngiad i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn cael ei rannu dros oes y benthyciad drwy addasu'r raddfa log berthnasol.

Mae'r elfen a godir i Gronfa'r Cyngor ac i'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei lywodraethu gan reoliadau. Mae'r elfen a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei had-dalu dros ddeng mlynedd neu dros weddill oes y benthyciad a ad-delir (os ydyw'n llai) i gyfateb i'r cymhorthdal a dderbynnir. Pan fo gwahaniaeth rhwng y premiwm yn ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai a godir o refeniw ar y naill law a'r swm ad-delir i'r Cyfrif Refeniw Tai yn ôl trefniadau statudol ar y llaw arall, yna gwneir neilltuad o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol er mwyn cynnal balans y Cyfrif Refeniw Tai ar y lefel amcangyfrifedig o fewn y gweithdrefnau cyfrifo statudol.

Ble mae premiwm a disgownt wedi ei godi i'r Cyfrif Incwm a Gwariant, mae'r rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei rannu dros rai blynyddoedd i'r dyfodol. Cysonir y swm a godir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gost net yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor, drwy drosglwyddiad i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol neu ohono yn y Datganiad Symudiad ym Malans Cronfa'r Cyngor.

**12. CRONNI INCWM A GWARIANT**

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r SORP. Golyga hyn fod symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor neu ganddo, lle mae'r cyflenwad neu'r gwasanaeth wedi ei ddarparu neu ei dderbyn yn ystod y flwyddyn, yn gynywysedig yn y cyfrifon p'un a ydynt wedi derbyn tâl neu eu talu ai peidio yn y flwyddyn.

Cyfrifir am log sy'n daladwy ar fenthyciadau ac a dderbynnir ar fuddsoddiadau, ar sail graddfa llog perthnasol i'r offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a sefydlir neu a benodir gan contract.

Cronnir grantiau a hawliwyd neu sy'n gymwys i'w hawlio ar gyfer defnydd refeniw a chyfalaf. Mae rhai hawliadau grant yn cael eu cwblhau ar ôl gorffen y cyfrifon ac yn yr achosion yma cronnir y grant ar sail yr amcangyfrif gorau sydd ar gael, a chyfrifir am unrhyw wahaniaethau yn y flwyddyn ddilynol.

### 13. TRETH AR WERTH (TAW)

Ac eithrio Treth ar Werth yng nghyswllt rhai cerbydau penodol a brynir, mae'r Cyngor yn derbyn ad-daliad TAW. O'r herwydd mae'r cyfrifon wedi eu paratoi heb gynnwys y dreth hon, oni bai am achlysuron lle nad oes modd adennill y dreth.

### 14. GRANTIAU LLYWODRAETH

Fe gredydir grantiau refeniw i incwm i gyfateb â'r gwariant priodol.

Rhoddir cyfrif am grantiau ar sail croniant a chânt eu cydnabod wrth gydymffurfio â'r amodau ar gyfer derbyn grant a phan fo sicrwydd rhesymol y derbynnir yr arian.

Fe gredydir grantiau a chyfraniadau gan y Llywodraeth am asedau sefydlog a gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf yn unol â statud i gyfrif grantiau llywodraeth gohiriedig, gan eu rhyddhau i gyfrif refeniw yn unol â'r dibrisiant a godir ar yr ased perthnasol neu wrth ysgrifennu i lawr y gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf yn unol â statud.

Pan fo grantiau wedi'u derbyn a dim modd eu priodoli'n uniongyrchol i ased sydd wedi dibrisio, mae'r incwm yn cael ei drosglwyddo drwy gredyd i gyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol yn ystod blwyddyn derbyn yr incwm.

Ar gyfer 2008/09, cyflwynwyd newid gan y SORP yn y cyfrifo am y balans cronedig o grantiau'r llywodraeth, er mwyn sgwennu i ffwrdd unrhyw grantiau nad ydynt wedi eu priodoli'n uniongyrchol i ased sydd wedi ei ddibrisio ac mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn gyda'r SORP.

### 15. ARIAN WRTH GEFN A DARPARIAETHAU

Cedwir symiau wrth gefn i gwrdd â gwariant a gyfyd yn y dyfodol. Mae rhestr o'r arian wrth gefn ynghyd â phwrpas y rheini yn ymddangos yn Nodyn 23 i'r Prif Ddatganiadau Ariannol. Mae'r Cyngor yn clustnodi darpariaethau ar gyfer ymrwymadau o amseriad neu swm ansicr; ymddengys y manylion yn Nodyn 22.

### 16. YMRWYMIADAU AMODOL

Mae'r SORP yn diffinio ymrwymadau amodol unai fel rhwymedigaeth posibl o weithgareddau'r gorffennol sydd a'i fodolaeth yn ddibynnol ar weithgareddau ansicr y dyfodol, neu rhwymedigaeth bresennol sydd ddim yn cael ei adnabod gan nad yw mesuriad y rhwymedigaeth yn ddibynadwy neu os nad yw hi'n debygol bydd trosglwyddiad o fuddiannau economaidd yn digwydd.

### 17. BUDDIANNAU YMDDEOL

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Cynllun Pensiwn yr Athrawon a weinyddir gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau penodol i aelodau (lwmp swm wrth ymddeol a phensiynau), ac a enillwyd wrth i weithwyr weithio i'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r cynllun i Athrawon yn golygu nad oes modd priodoli'r ymrwymadau am y buddiannau hyn i'r Cyngor. O'r herwydd cedwir cyfrifon i'r cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig - nid oes cydnabyddiaeth i'r ddyletswydd neu'r cyfrifoldeb am dalu buddiannau'r dyfodol yn y fantolen a chodir ar y cyfrifon refeniw am daliadau'r cyflogwr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn i'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** - Cedwir cyfrifon i'r Cynllun Llywodraeth Leol fel cynllun buddiannau diffiniedig:

- Mae'r ymrwymadau i Gynllun Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y fantolen yn ôl dull actiwariol gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeol a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marw, cyfraddau trosiant y gweithwyr ayyb. a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol.
- Rhoddir disgownt yn erbyn yr ymrwymadau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt (yn seiliedig ar raddfa dychweliant awgrymiadol ar fondiau corfforaethol o safon uchel fel sydd wedi ei fesur gan gynnyrch ar iboxx Sterling Corporate Index AA dros 15 mlynedd).
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y fantolen yn ôl eu gwerth teg:
  - stociau a ddyfynnir – pris bid (ers 2009)
  - stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
  - stociau uned - cyfartaledd cyfraddau'r bidiau a'r cynigion
  - eiddo - gwerth ar y farchnad.
- Mae'r newid yn yr ymrwymadau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul saith rhan:
  - costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn yr ymrwymadau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei glustnodi i gyfrifon refeniw'r gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt.
  - costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn yr ymrwymadau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheini yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynnyddoedd y gorffennol - debyd i Gost Net y Gwasanaethau fel rhan o'r Costau na Ddosberthir.
  - costau llog - y cynnydd disgwylidig yng ngwerth presennol yr ymrwymadau yn ystod y flwyddyn wrth i'r rheini symud blwyddyn yn nes i gael eu talu - debyd i'r Gwariant Gweithredol Net.
  - dychweliad a ddisgwylir ar asedau - y dychweliad buddsoddol blynyddol ar asedau'r gronfa a briodolir i'r Cyngor, yn seiliedig ar gyfartaledd o'r dychweliad disgwylidig yn y tymor hir - credyd i Wariant Gweithredol Net.
  - enillion/colledion ar setliadau a chwtogiadau - o ganlyniad i gamau a gymerir i ryddhau'r Cyngor o ymrwymadau neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth disgwylidig y dyfodol neu'r buddiannau i weithwyr cronedig - debyd i Gost Net y Gwasanaethau fel rhan o'r Costau na Ddosberthir.
  - enillion a cholledion actiwariol - newidiadau yn yr ymrwymadau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau yn y prisiad actiwariol diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariâu wedi diweddarau eu rhagdybiaethau - nid yw'n cael ei godi o refeniw.
  - cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Pensiwn Gwynedd - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn.

Mae'r darpariaethau statudol yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i godi yn erbyn y Dreth Gyngor, y symiau hynny sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn yn y flwyddyn. Yn Natganiad Symudiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor, golyga hyn fod y debydau a'r credydau ar gyfer buddiannau pensiynau yn cael eu dileu ac yn eu lle ceir debydau am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiynau ac unrhyw symiau yn daladwy i'r gronfa ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

**Buddiannau Dewisol** - Yn ogystal mae gan y Cyngor rai pwerau i dalu buddiannau ymddeol dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw ymrwymiadau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o'r staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rheini a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

#### 18. **STOCIAU A GWAITH AR EI HANNER**

##### a) **Stociau**

Cedwir storfa gan y Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau. Mae'n cynnwys defnyddiau adeiladu a phartiau sbâr cerbydau ac fe'u dangosir yn y fantolen gyda'r pris diweddaraf. Mae'r SORP yn dweud y dylai'r rhain gael eu priso ar yr isaf o bris cost a gwerth net dichonadwy ond dim ond y pris diweddaraf y mae'r systemau cyfrifeg yn ei roi, ac mae hyn yn wyriad o'r SORP. Prisiwyd y stociau eraill ar bris cost.

##### b) **Gwaith ar ei hanner**

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ar ei hanner yn waith y Gwasanaeth Priffyrdd y codir amdano. Mae'n cael ei brisio ar gost.

#### 19. **LLOG MEWNOL**

Buddsoddir balansau arian gan yr Awdurdod yn unol â'i Bolisïau Rheoli Trysorlys a Buddsoddi, am gyfnodau o hyd at bum mlynedd ac fe gronnir a chredydir yr incwm i Gronfa'r Cyngor. Credydir llog i'r cronfeydd ymddiriedol a chyfrifon trydydd parti eraill ar sail y raddfa log a enillwyd gan y Cyngor. Mae rhai cronfeydd wrth gefn hefyd yn derbyn llog trwy drosglwyddiad sydd wedi ei glandro ar yr un sail.

#### 20. **GORBENION**

Codir neu dyrennir Costau Gwasanaethau Cefnogol - boed yn ganolog neu'n adrannol - i gyfrifon refeniw'r gwasanaethau ar sail briodol yn ôl y Côd Ymarfer Gwerth Gorau. Yr unig eithriad i gostio amsugno cyfan yw'r eitemau sy'n perthyn i'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd a Chostau Na Ddosberthir; ni ddyrennir y rhain ac maent yn cael eu datgelu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

Y mae costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd yn cynnwys pob gweithgaredd penodol sydd a wnelo'r Cyngor â fo, am ei fod yn awdurdod etholedig, amlbwrpas. Felly, y mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, wedi eu henwebu, yn rheoli'r gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau. Prif elfennau Costau Na Ddosberthir yw elfennau o gostau pensiwn megis costau gwasanaeth yn y gorffennol, setliadau a chwtogiadau.

**CYFRIF INCWM A GWARIANT 2009/10**

GWARIANT AR WASANAETHAU	Nodiadau	Gwariant	Incwm	Gwariant	2008/09
		Gros £'000	Gros £'000	Net £'000	Gwariant Net Wedi ei ail- ddatgan £'000
- Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd		6,075	(5,289)	786	638
- Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig	troednodyn 1	10,328	(4,652)	5,676	6,250
- Gwasanaethau Addysg a Phlant		60,215	(12,317)	47,898	58,807
- Gwasanaethau Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant		12,307	(3,931)	8,376	11,386
- Gwasanaethau Tai		44,189	(42,440)	1,749	17,872
- Gofal Cymdeithasol Oedolion		32,739	(11,753)	20,986	21,272
- Cynllunio a Datblygu	troednodyn 1	6,499	(3,828)	2,671	8,186
- Gwasanaethau Amgylcheddol	troednodyn 1	13,671	(4,885)	8,786	10,386
- Craidd Corfforaethol a Democrataidd		4,282	(882)	3,400	4,590
Costau Na Ddosberthir	troednodyn 2	161	0	161	206
<b>COST NET Y GWASANAETHAU</b>		<b>190,466</b>	<b>(89,977)</b>	<b>100,489</b>	<b>139,593</b>
Ardollau gan gyd bwyllgorau a chyrff eraill	32	3,471	0	3,471	3,396
Preseptau a dalwyd i Gynghorau Cymuned		803	0	803	784
Preseptau a dalwyd i'r awdurdod heddlu	troednodyn 3	5,716	0	5,716	5,477
Incwm Buddsodiadau a Llog		0	(921)	(921)	(3,433)
Llog Taladwy a Threuliau Tebyg		5,170	0	5,170	5,208
Disgownt ar ad-dalu benthyciadau yn gynnar		0	0	0	(691)
Costau llog pensiwn ac enillion disgwylidig ar asedau pensiwn	35	13,257	(8,142)	5,115	2,356
Enillion ar gael gwared o Asedau Sefydlog		0	(640)	(640)	(248)
<b>GWARIANT GWEITHREDOL NET</b>		<b>218,883</b>	<b>(99,680)</b>	<b>119,203</b>	<b>152,442</b>
Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth				(75,073)	(74,264)
Y Dreth Gyngor - troednodyn 3	29			(29,562)	(28,326)
Aildosbarthiad Trethi Annomestic Cenedlaethol	30			(18,787)	(18,278)
<b>Cyfanswm Ffynonellau Cyllido</b>				<b>(123,422)</b>	<b>(120,868)</b>
<b>(GWARGED)/DIFFYG AM Y FLWYDDYN</b>				<b>(4,219)</b>	<b>31,574</b>

1. Dan y Côt Ymarfer (Cyfrifeg) Gwerth Gorau buasai'r tair llinell hyn o wariant gwasanaeth yn cael eu cyfuno dan 'Gwasanaethau Diwylliannol, amgylcheddol a chynllunio'. Mae'r Cyngor yn datgelu'r llinellau hyn ar wahân er mwyn cyflwyno dadansoddiad manylach o'r gwariant.
2. Mae'r Costau Na Dosberthir yn ymwneud â chostau pensiwn gwasanaeth y gorffennol na ellir eu rhoi yn erbyn gwasanaeth arbennig – gweler nodyn 35.
Cronfa Derbynyon Cyfalaf Defnyddiol	1,659	1,266	<b>2,925</b>	Arian o werthu asedau sefydlog ar gael i gwrdd â buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol	Gweler nodyn 13
Cronfa Cyfrif Refeniw Tai	1,836	540	<b>2,376</b>	Adnoddau ar gael i gwrdd â chostau rhedeg yn y dyfodol yng nghyswllt Tai Cyngor	Gweler Datganiadau CRT tudalennau 54 + 55
Cronfa'r Cyngor	4,696	1,112	<b>5,808</b>	Adnoddau ar gael i gwrdd â chostau rhedeg yn y dyfodol yng nghyswllt gwasanaethau y tu allan i'r CRT	Gweler Datganiad ar Symudiad Balansau Cronfa'r Cyngor tudalen 15
Balansau'r Ysgolion	3,246	(101)	<b>3,145</b>	Adnoddau ar gael i gwrdd â chostau rhedeg yn y dyfodol yng nghyswllt amcanion addysgol yr ysgolion	Gweler nodyn 28
Arian wrth Gefn Clustnodedig Arall	11,217	1,082	<b>12,299</b>	Gweler isod	Gweler isod
<b>Is-Gyfanswm:</b>	<b>22,654</b>	<b>3,899</b>	<b>26,553</b>		
<b>Cronfeydd ddsbarthiadwy</b>					
<b>CYFANSWM</b>	<b>104,605</b>	<b>(70,423)</b>	<b>34,182</b>		

Manylir isod ar y cronfeydd wrth gefn clustnodedig i ddibenion referniw penodol:-

	Balans 01/04/09 £'000	Symudiadau y Flwyddyn £'000	Balans 31/03/10 £'000
Gwariant Cyfalaf	1,149	350	1,499
Cronfa Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn	30	856	886
Yswiriant	1,710	116	1,826
Digwyddiadau Anaml	9	3	12
Pryniant Amgueddfeydd	10	5	15
Cronfa Gwelliannau Hamdden	419	(4)	415
Diwrnodau Ysgolion	(4)	(23)	(27)
Cronfeydd Gwasanaeth	2,189	(575)	1,614
Cronfeydd Gwasanaeth Cyfyngedig	747	180	927
Cronfa Gwasanaeth Tân	102	(102)	0
Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau	190	(104)	86
Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi	1,878	467	2,345
Adran 117 (Deddf Iechyd Meddwl 1983)	327	0	327
Ailgylchu	955	0	955
Cronfa Rheoli Risg	71	(9)	62
Cronfa Rheoli Perfformiad	1,317	40	1,357
LABGI	118	(118)	0
	<b>11,217</b>	<b>1,082</b>	<b>12,299</b>

### **Pwrpas Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig**

**Gwariant Cyfalaf** - i gyllido gwariant cyfalaf yn y dyfodol. Sefydlwyd hwn i sicrhau bod ymrwymadau cyfalaf, gan gynnwys llithriad gwariant cyfalaf o flynyddoedd cynharach, wedi eu cyllido'n llawn.

**Cronfa Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn** - Fe grëwyd y gronfa o'r asedau arian net o Gwmni Gwastraff Môn Arfon Cyf sydd yn y broses o gael ei ddirwyn i ben. Mae'r arian a drosglwyddwyd wedi ei leihau gan £2.46 miliwn ac wedi ei drin fel darpariaeth (gweler nodyn 22) a chostau yn ymwneud â dirwyn y cwmni i ben a chostau capio. Defnyddir y gronfa i gyfrannu tuag at ymrwymadau yn y dyfodol yn deillio o reolaeth safle Penhesgyn. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed taliadau pellach mewn perthynas â chronfeydd cyfranddalwyr. Cafodd y gwerth gweddilliol yn y Cwmni (£0.812 miliwn) ei gategoreiddio fel Offeryn Ariannol ar gael i'w Werthu (Nodyn 27), ond cafodd ei ysgrifennu allan yn ystod y flwyddyn.

**Yswiriant** - Mae'r Cyngor yn gweinyddu cronfa yswiriant mewnol sy'n talu am golledion sydd wedi eu hyswiro'n fewnol ac yn derbyn 'premiwm' o'r cyfrifon gwasanaeth. Gwneir darpariaeth am golledion sy'n hysbys ar ddiwedd y flwyddyn (gweler darpariaeth yswiriant Nodyn 22). Y gronfa hon yw'r gwarged ar y cyfrif yswiriant mewnol ynghyd â llog ar y balansau, ac fe'i bwriedir ar gyfer hawliadau sydd wedi digwydd ond heb eu hadrodd. Clustnodwyd £0.4 miliwn pellach o falansau er mwyn amddiffyn cyllidebau'r Cyngor petai colledion arbennig o uchel mewn unrhyw flwyddyn. Cafodd y swm hwn ei ryddhau i'r balansau cyffredinol yn 2009/10 i gynorthwyo i gyllido cyllideb y Cyngor am y flwyddyn.

**Digwyddiadau Anaml** - galluogi'r Cyngor i wasgaru, dros flynyddoedd, y gost o wneud cyfraniadau i ddigwyddiadau sy'n llai aml na blynyddol.

**Pryniant Amgueddfeydd** - rhoddion a chyllid arall a glustnodwyd i gyllido gwariant yn Oriol Ynys Môn yn y dyfodol.

**Cronfa Gwelliannau Hamdden** - i gyllido gwariant cyfalaf ar welliannau a darparu cyfleusterau hamdden strategaethol. Mae balans Cronfa wrth Gefn Gemau'r Ynysoedd, wedi ei ddangos yn flaenorol fel rhan o'r Gronfeydd Gwasanaeth Cyfyngedig, wedi ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn.

**Diwrnodau Ysgol** - cysoni costau nifer amrywiol y diwrnodau ysgol ym mhob blwyddyn ariannol.

**Cronfeydd Gwasanaeth** - dan Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, caiff gorwariannau a thanwariannau eu dwyn ymlaen fel arian wrth gefn clustnodedig, oni ei fod wedi ei gyfyngu gan y Pwyllgor Gwaith.

**Cronfeydd Gwasanaeth Cyfyngedig** - cyllidebau wedi eu clustnodi o fewn meysydd gwasanaeth nad ydynt wedi eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn.

**Cronfa Gwasanaeth Tân** - Yng ngolwg trosglwyddiad cyfrifoldeb ar gyfer costau pensiwn tân i'r Llywodraeth DU, dychwelodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru at ei awdurdodau cyfansoddol y swm a neilltuwyd ganddo i reoli amrywiaeth costau pensiwn. Defnyddiwyd hyn yn 2009/10 i gefnogi cyllideb 2009/10.

**Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau** - darparu balans gweithredol. Cronnwyd rhan fawr o'r balans hwn dan statws blaenorol yr uned fel Trefniant Llafur Uniongyrchol dan ddeddfwriaeth Tendro Cystadleuol Gorfodol. Mae'r holl warged ar waith sy'n perthyn i'r Cyfrif Refeniw Tai bellach yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r cyfrif hwnnw. Dyrannwyd £120k i'w ddefnyddio yn 2009/10 i gefnogi cyllideb 2009/10.

**Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi** - Oherwydd y cytundeb 'Statws Sengl' mae'n rhaid i'r Awdurdod hwn, fel llawer i awdurdod lleol arall, gyflwyno system tâl a graddfeydd newydd o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Mae ansicrwydd ynghylch y graddau y bydd raid gweithredu ar ôl gyflog. Ar hyn o bryd mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar y strwythur tâl a graddfeydd diwygiedig. Mae swm wedi ei glustnodi yn yr arian wrth gefn i arfarnu swyddi tuag at gost gyffredinol yr ymarferiad, gan gynnwys costau gweinyddol, costau'r graddfeydd tâl newydd, unrhyw ddarpariaethau i warchod cyflog a hefyd unrhyw ôl gyflog. Er nad yw'n bosib amcangyfrif yr elfennau unigol hyn gyda phendantwydd, mae'r Awdurdod o'r farn bod y symiau a roddwyd o'r neilltu yn ddigon. (Gweler hefyd Nodyn 37).

**Adran 117 (Deddf Iechyd Meddwl 1983)** i ddarparu ar gyfer ad-daliad disgwylidig o ffioedd a godwyd yn y gorffennol ar rai defnyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol. (Gweler hefyd Nodyn 37).

**Ailgylchu** - arbedion costau tirlenwi a grëwyd wrth ailgylchu yn hytrach na chladdu gwastraff. Aiff arian y gronfa tuag at gynlluniau ailgylchu.

**Cronfa Rheoli Risg** - Sefydlwyd y gronfa Rheoli Risg er mwyn cyllido gwaith wedi ei wneud ar y cyd gydag Yswirwyr y Cyngor gan gynnwys Rheoli Risg Corfforaethol; Parhad Busnes; Iechyd a Diogelwch.

**Cronfa Rheoli Perfformiad** - symiau a roddwyd wrth gefn tuag at fesurau gwella perfformiad o'r Grant Cymell Perfformiad.

**Grant Cymell Twf Busnesau Awdurdodau Lleol (LABGI)** - symiau a dderbyniwyd fel taliad ar gyfrif gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan gynllun Trysorlys DU i wobrwyo Cyngorau Lleol am dyfiant yng ngwerth trethiannol y dreth fusnes yn eu hardal. Mae'r grant wedi ei ddsbarthu'n rhannol yn 2008/09 a'r balans wedi ei grafangu'n ôl i gefnogi cyllideb 2009/10. Daeth y grant yma i ben yn 2007/08.

**24. ENILLION A CHOLLEDION OFFERYNNAU ARIANNOL**

Mae'r enillion a cholledion yn Natganiad Symudiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol yn cynnwys y gwahaniaeth rhwng cost net flynyddol am breimiau a disgowntiau a godir i Gyfrif Incwm a Gwariant ar y naill law, a'r swm a godir yn unol â statud i Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar y llaw arall. £135k net (£653k yn 2008/09) yw'r addasiad.

**25. DATGELU NATUR A CHWMPAS Y RISGIAU SY'N CODI O'R OFFERYNNAU ARIANNOL**

Mae gwaith y Cyngor yn codi sawl risg ariannol:

**Risg Credyd** - y posibilrwydd bod partion eraill yn methu â thalu'r symiau dyledus i'r Cyngor.

**Risg Hylifedd** - y posibilrwydd na fydd yr arian gan y Cyngor i gwrdd ag ymrwymadau yng nghyswllt taliadau.

**Risg y Farchnad** - y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae'r rheolaeth gyffredinol dros risgiau sylweddol sy'n codi o'r offerynnau ariannol yn cael cefnogaeth Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a hefyd y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

**Risg Credyd**

Cyfyd y risg credyd oherwydd yr adneuron mewn banciau a sefydliadau ariannol, ond hefyd oherwydd credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar y Fantolen).

Nid ydym yn trefnu adneuron gyda banciau a sefydliadau ariannol onid ydynt, ar ôl cael eu harchwilio'n annibynnol, wedi cael graddfa credyd ddigonol, a phenderfynir ar uchafsymiau credyd i bob gwrthbarti. Gosododd y Cyngor nifer o gyfyngiadau yn seiliedig ar raddfeydd credyd ar gyfer gwahanol gyrf; gwahanol gyfnodau a symiau. Polisi'r Cyngor yw peidio â benthyca rhagor na £10m i unrhyw un sefydliad heblaw llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n monitro cyfraddau credyd yn gyson a chaiff rybudd o unrhyw newidiadau gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Cymerir camau priodol yn sgil unrhyw newid gan ddilyn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Paratoir Adroddiad Trysorlys Blynyddol sy'n manylu ar y gwaith buddsoddi.

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn crynhoi'r potensial i'r Awdurdod fod yn agored i risg credyd, yn seiliedig ar brofiad o ddiffygion a methu â chasglu dros y pum mlynedd ariannol diwethaf, wedi ei addasu ar gyfer cyflwr presennol y farchnad.

	Swm	Profiad hanesyddol o ddiffygion	Addasiadau ar gyfer cyflwr y farchnad	*Amcangyfrif Datguddiad Uchafswm
	31 Mawrth 2010 £'000	%	31 Mawrth 2010 %	£'000
Adneuron gyda Banciau a Chyfrif Ariannol - Aaa	0	0.0	0.0	0
- Aa	22,575	0.0	0.0	0
- A	0	0.0	0.0	0
Dyledwyr Masnach	3,726	1.8	3.6	948

\* Amcangyfrif Datguddiad uchafswm i ddiffyg ac anghasgladwy

Ni aed y tu draw i unrhyw uchafswm credyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac ni thorrwyd unrhyw bolisi ynglŷn â gwrthbartion. Nid yw'r awdurdod yn disgwyl y bydd unrhyw gollodion oherwydd bod unrhyw un o'i wrthbartion yn methu â pherfformio yng nghyswllt adneuon. Mae'r argyfwng credyd presennol wedi cynyddu'r posibilrwydd o ddiffyg ac mewn ymateb mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf llymach ar gyfer gwrthbartion buddsoddi o fewn ei bolisi cyffredinol.

Nid yw'r Cyngor, gan amlaf, yn caniatáu credyd i gwsmeriaid; hefyd mae'r Cyngor wedi mabwysiadu gweithdrefnau casglu ar gyfer symiau dyledus gan gwsmeriaid a gwneir darpariaethau priodol ar gyfer dyledion a allai fod yn rhai drwg. Mewn rhai amgylchiadau mae'r Cyngor yn ymofyn pridiant cyfreithiol ar gyfer rhai dyledion gohriedig fel hunan-gyllidwyr mewn cartrefi gofal.

Gellir dadansoddi dyledwyr masnach y Cyngor fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2010 £'000	31 Mawrth 2009 £'000
Hyd at dri mis	2,070	1,688
Tri i chwe mis	118	507
Chwe mis i flwyddyn	293	185
Dros flwyddyn	1,245	1,391
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,726</b>	<b>3,771</b>

Yn ogystal mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hir a hynny'n cynnwys benthyciadau ceir i staff a morgeisi gweddilliol o gynllun caeedig yn cynnig benthyciadau cartrefi i denantiaid ac i aelodau o'r cyhoedd. Ond ystyrir bod y benthyciadau ceir yn risg isel oherwydd bod modd tynnu ad-daliadau am y benthyciadau o gyflogau'r gweithwyr, a hefyd mae trefniadau cyffredin ymhlith yr awdurdodau lleol ar gyfer staff sy'n trosglwyddo ac yn symud gyda dyledion ar eu benthyciadau ceir, yswiriant ar gyfer benthyciadau heb eu had-dalu oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth a hefyd mae gan y Cyngor drefniadau i hawlio dyledion yn ôl yng nghyswllt gweithwyr sy'n gadael eu swyddi mewn llywodraeth leol. Risg isel sydd ynghlwm wrth y morgeisi oherwydd bod y Cyngor yn diogelu'r hawl gyntaf ar yr eiddo morgeisiedig.

### Risg Hylifedd

Mae Risg Hylifedd yn isel am nad yw'r Cyngor yn y gorffennol wedi cael unrhyw broblem cael arian ac mae'r Cyngor hefyd bob amser yn rhydd i fynd at y Bwrdd Benthycia ar gyfer Gweithiau Cyhoeddus (PWLB) fel corff i fenthycia oddi arno ar ôl methu fel arall. O'r herwydd, nid oes yma risg sylweddol y bydd yn methu â chodi'r arian i gwrdd â'i ymrwymadau dan yr offerynnau ariannol. Fodd bynnag, mae yma risg y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn anffafriol. Yr arfer yw ceisio sicrhau na fydd, mewn unrhyw gyfnod o 3 blynedd, ragor na 30% o'r benthyciadau i'w had-dalu a chadw golwg gyson ar gyfraddau'r farchnad a'r rhagolygon er mwyn trefnu benthyciadau newydd yn lle hen rai sy'n aeddfedu neu ar gyfer ad-drefnu'r benthyciadau presennol ar yr adeg fwyaf manteisiol. I gyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli'r trysorlys - rhai allanol. Dangosir dadansoddiad aeddfedu benthyciadau sy'n sefyll yn nodyn 9.

Mae holl gyrff y fasnach a rhai eraill yn derbyn y tâl dyladwy mewn llai na blwyddyn.

**Risg y Farchnad**

**Risg Cyfraddau Llog** - Mae'r Cyngor yn wynebu risg pan fo symudiadau ymhlith cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor - e.e. câi cynnydd yn y cyfraddau llog yr effaith a ganlyn:

- benthycia ar gyfraddau amrywiol - gwelid cynnydd yn y tâl llogau i'w godi o'r Cyfrif Incwm a Gwariant;
- benthycia ar gyfraddau sefydlog - ceid gostyngiad yng ngwerth teg y benthyciadau;
- buddsoddi ar gyfraddau amrywiol - gwelid cynnydd yn yr incwm llog a roddid mewn credyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant;
- buddsoddi ar gyfraddau sefydlog - gwelid gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau.

Mae gan y Cyngor sawl strategaeth i reoli risg cyfraddau llog - ei bolisi yw benthycia'n bennaf yn ôl cyfraddau sefydlog oddi ar y PWLB, er mwyn cael sicrwydd beth fydd y llog taladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor bob amser, a chyda chefnogaeth ei gynghorwyr trysorlys, yn cadw golwg ar y cyfraddau llog ar y pryd ac ar ragolygon y farchnad. Pe ceid risg sylweddol o godiad sydyn yn y cyfraddau llog tymhorau hir a byr yna ailasesid y sefyllfa portffolio a hynny'n arwain, fel arfer, at godi arian cyfraddau sefydlog tra bo cyfraddau llog yn dal i fod yn gymharol rhad. Pe ceid risg sylweddol o ostyngiad sydyn yn y cyfraddau llog tymor hir a byr yna câi benthyciadau tymor hir eu gohirio a symud ymlaen i ad-drefnu a symud o gyllid cyfraddau sefydlog i gyllid cyfraddau tymor byr.

**Risg Prisiau** - Nid yw'r Cyngor, fel arfer, yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti.

**Risg Cyfnewid Arian Tramor** - Nid oes gan y Cyngor asedau ariannol nac ymrwymadau eraill sy'n cael eu dal mewn arian tramor ar wahân i gynlluniau gweddol fychan a gyllidwyd gan grantiau ble mae'r grantiau'n enwi'r Euro. Felly mae'n cyfyngu colled pe digwyddai symudiadau yn y cyfraddau cyfnewid.

**26. CYFRIF ADDASU OFFERYNNAU ARIANNOL**

Mae'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn darparu mecanwaith balansio rhwng y graddfeydd gwahanol ble adnabyddir enillion a cholledion dan SORP (fel y premiwm ar ad-daliadau buan o ddyledion) ac mae angen statudol i'w cwrdd o Gronfa'r Cyngor neu'r Cyfrif Refeniw Tai.

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
Balans a ddygwyd ymlaen 1 Ebrill	679	26
Addasiadau net o'r Premiymau a'r Disgowntiau (gweler nodyn 10)	(134)	653
Balans i'w ddwyn ymlaen ar 31 Mawrth	<b>545</b>	<b>679</b>

**27. OFFERYNNAU ARIANNOL WRTH GEFN AR GAEL I'W GWERTHU**

Mae'r Offerynnau Ariannol Wrth Gefn ar gael i'w gwerthu yn nodi enillion ailbriso heb eu gwireddu a grëwyd o ddal buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu, ac unrhyw golledion heb eu gwireddu na chrëwyd o amhariadau o'r asedau.

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
Balans a ddygwyd ymlaen 1 Ebrill	812	1,909
Buddsoddiadau Adnabuwyd yn ystod y Flwyddyn	47	297
Buddsoddiadau Werthwyd yn ystod y Flwyddyn	(859)	(1,394)
Balans i'w ddwyn ymlaen ar 31 Mawrth	<b>0</b>	<b>812</b>

Mae'r symud ar y gronfa yn ymwneud â'r enillion na wireddwyd ar ddaliad y Cyngor yng Nghwmni Gwastraff Môn Arfon Cyf a gwireddu'r buddsoddiad wedi hynny.

**28. BALANSAU'R YSGOLION**

Mae'r balansau hyn wedi eu neilltuo ar gyfer defnydd yr ysgolion unigol er budd eu hamcanion addysgiadol.

	Balans Agoriadol 01/04/09 £'000	Ychwanegu / (Gostyngiad) am y Flwyddyn £'000	Balans Cau 31/03/10 £'000
Ysgolion Cynradd Cymunedol a Gwirfoddol	1,357	(5)	1,352
Ysgolion Uwchradd Cymunedol	1,639	(169)	1,470
Ysgol Arbennig Gymunedol	154	28	182
Ysgol Gynradd Sefydledig (gweler nodyn 42)	96	45	141
	<b>3,246</b>	<b>(101)</b>	<b>3,145</b>

Ar 31 Mawrth 2010, roedd gan bob ysgol falansau mewn llaw heblaw am dair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd a oedd gyda diffyg o £156,760 mewn cyfanswm. Gellir cael copïau o'r Datganiad Adran 52 y mae'n ofynnol i bob awdurdod ei baratoi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol o dan Adran 52(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gan yr Adran Gyllid.

**29. Y DRETH GYNGOR**

Y Dreth Gyngor yw'r incwm a geir trwy godi ar eiddo preswyl yn ôl gwerth yr eiddo ac mae'r gwerth hwnnw wedi ei rannu'n naw band yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill 2003 i'r pwrpas penodol hwn. Penderfynir ar y taliadau trwy amcangyfrif faint o incwm y bydd raid i Gyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ei gael dros y flwyddyn nesaf ac wedyn rhennir y swm gyda'r sylfaen i'r Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band prisio gan addasu, trwy gyfran, a throir nifer i'r hyn sy'n cyfateb i fand D ac addasu ar gyfer disgownt – 29,235.65 am 2009/10 (29,418.92 am 2008/09).

Wedyn, mae'r swm i eiddo Band D (£1,012.79 ar gyfartaledd am 2009/10, £979.62 yn 2008/09) yn cael ei luosi gan y gyfran a benodir i'r band penodol a bydd hynny wedyn, ar ôl caniatáu disgownt a budd-dal, yn rhoi i ni'r swm sy'n ddyledus gan yr unigolyn.

Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion isod i fandiau A i I:

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
<b>Lluosydd</b>	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9
<b>Dadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor:-</b>							<b>2009/10</b>	<b>2008/09</b>	
							<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	
Y Dreth Gyngor gasgladwy							29,796	28,458	
Llai : darpariaeth ar gyfer rhai'n methu talu heb gyfrif ar ei gyfer o'r blaen							(234)	(132)	
<b>Enillion net o'r Dreth Gyngor (gan gynnwys praeseptau)</b>							<b>29,562</b>	<b>28,326</b>	

2008/09 wedi'i ailddatgan i gynnwys praesept yr Heddlu yn y ffigwr ar gyfer enillion net.

### 30. TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (TAC)

Mae'r Trethi Annomestig hyn yn cael eu trefnu ar sail genedlaethol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yn pennu cyfradd - 48.9c yn 2009/10 (46.6c yn 2008/09) ac mae busnesau lleol yn talu trethi a glendrir trwy luosi gwerth ardrethol yr eiddo gyda'r swm uchod. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu trethi oddi ar drethdalwyr ei ardal ond wedyn mae'n trosglwyddo'r arian i'r Gronfa Genedlaethol o Drethi Annomestig dan weinyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC). Mae CCC yn aiddosbarthu'r symiau a delir yn ôl i Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

Roedd incwm TAC, ar ôl ystyried rhyddhad a darpariaethau, yn £14,269,434 ar gyfer 2009/10 (£13,489,274 yn 2008/09), yn seiliedig ar werth trethadwy ar ddiwedd y flwyddyn o £33,824,335 (£33,888,958 am 2008/09). Y cyfartaledd am y flwyddyn oedd tua £33,848,126 (£33,380,731 am 2008/09).

<b>Dadansoddiad o'r enillion net o drethi annomestig:</b>	<b>2009/10</b>	<b>2008/09</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Trethi annomestig casgladwy	14,269	13,489
Cost lwfans casglu	(133)	(134)
Llog dalwyd ar ordaliadau	(27)	(19)
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg	(119)	(188)
Cyfraniad i gost rhyddhad trethi elusennol/gwledig	48	36
Taliadau i mewn i'r gronfa genedlaethol	<b>14,038</b>	<b>13,184</b>
Aiddosbarthu o'r gronfa genedlaethol	18,787	18,278

### 31 GRANTIAU CYFFREDINOL GAN Y LLYWODRAETH

Mae Grantiau Cyffredinol gan y Llywodraeth yn cynnwys yr isod:

	<b>2009/10</b>	<b>2008/09</b>
	<b>£'000</b>	<b>wedi ei hail-ddatgan</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Grant Cefnogaeth Refeniw	73,866	73,006
Grant Cytundeb Gwelliant	699	750
Grant Amddifadedd	508	508
Cyfanswm	<b>75,073</b>	<b>74,264</b>



**32. ARDOLLAU GAN GYDWASANAETHAU A CHYRFF ERAILL**

Mae rhai gwasanaethau yn gweithredu ar draws ffiniau cynghorau unigol ac mae'r Cyngor hwn yn talu rhan o gostau'r gwasanaethau. Roedd y cyfraniadau fel a ganlyn:-

<b>Gwasanaeth</b>	<b>2009/10 £'000</b>	<b>2008/09 £'000</b>
<u>Ardollau gan Gyrrff Allanol</u>		
Awdurdod Tân Gogledd Cymru	3,184	3,094
Asiantaeth yr Amgylchedd - Bwrdd Draenio Mewnol	2	2
Bwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan	2	10
Pwyllgor Pysgodfeydd Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru	132	128
	<b>3,320</b>	<b>3,234</b>
<u>Cydwasaethau sydd wedi eu cynnwys fel Ardollau</u>		
Gwasanaeth Crwner Môn a Gwynedd	151	162
<b>Ardollau yn y cyfrif refeniw cyfun</b>	<b>3,471</b>	<b>3,396</b>
<u>Cydwasaethau Eraill</u>		
Rhwydwaith Llyfryddol Gogledd Orllewin Cymru (TalNet)	74	73
Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig Môn a Gwynedd	455	440
	<b>4,000</b>	<b>3,909</b>

**33. LWFANSAU AELODAU**

Talwyd cyfanswm o £880,735 (£869,860 yn 2008/09) yn ymwneud a lwfansau i Aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Ers 2006/07, mae'r Aelodau yn gymwys i ymuno â'r cynllun pensiwn, ac mae'r ffigwr lwfansau yn cynnwys £55,916 (£55,318 yn 2008/09) ar gyfer cyfraniad y Cyngor i'r gronfa. Yn unol â Rheoliadau (Lwfansau Aelodau) (Cymru) Awdurdodau Lleol 2002, cyhoeddir manylion taliadau unigolion gan y Cyngor ac maent ar gael ar wefan y Cyngor : [www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk). Mae manylion pellach ar gael gan Swyddfa'r Rheolwr Gyfarwyddwr, Swyddfeydd y Cyngor, Llangejni, LL77 7TW.

**34. CYFLOGAU**

Nifer y gweithwyr (yn cynnwys penaethiaid ac uwch staff ysgolion) y mae eu cyflogau a dalwyd yn 2009/10, heb gynnwys cyfraniadau tuag at bensiynau ond yn cynnwys tâl diswyddo, yn £60,000 neu'n rhagor.

<b>Band Cyflog</b>	<b>Yn cynnwys taliadau diswyddo</b>		<b>Heb gynnwys taliadau diswyddo</b>	
	<b>2009/10 Nifer y Gweithwyr</b>	<b>2008/09 Nifer y Gweithwyr</b>	<b>2009/10 Nifer y Gweithwyr</b>	<b>2008/09 Nifer y Gweithwyr</b>
£60,000 - £64,999	3	4	3	4
£65,000 - £69,999	3	3	3	3
£70,000 - £74,999	3	2	3	2
£75,000 - £79,999	1	2	1	2
£80,000 - £84,999	1	1	1	1
£85,000 - £89,999	1	1	1	1
£90,000 - £94,999	1	-	1	-
£95,000 - £99,999	-	-	-	-
£100,000 - £104,999	-	1	-	-
£105,000 - £109,999	-	-	-	-
£110,000 - £114,999	-	-	-	-
£115,000 - £119,999	-	-	-	-
£120,000 - £124,999	-	-	-	-
£125,000 - £129,999	-	-	-	-
£130,000 - £134,999	-	-	-	-
£135,000 - £139,999	-	1	-	-

Yn ôl y gofyn, mae'r tabl isod yn datgelu cyflogau Prif Swyddogion sy'n ennill llai na £150,000 ond sy'n ennill £60,000 y flwyddyn neu fwy.

Deilydd Swydd	Cyflog (Yn cynnwys ffioedd a lwfansau)	Treuliau	Cyfanswm taliadau ac eithrio cyfraniadau pensiwn 2009/10	Cyfraniad Pensiwn	Cyfanswm taliadau yn cynnwys cyfraniadau pensiwn 2009/10
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)	86,211	2,820	89,031	17,514	106,545
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Thechnegol)	78,426	2,081	80,507	16,470	96,977
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)	75,302	2,170	77,472	15,804	93,276
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweithredol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)	68,416	2,190	70,606	14,365	84,971
Cyfarwyddwr Gwasanaethau	63,972	82	64,054	13,434	77,488
Cyfreithiol/Swyddfog Monitro					
	372,327	9,343	381,670	77,587	459,257

Gadawodd cyn Reolwr-gyfarwyddwr y Cyngor yn fuan ym mis Ebrill 2009. Yn unol â chytundeb a wnaed gydag ef, ni fedr y Cyngor gyhoeddi telerau'r cytundeb hwnnw ac yn unol â chymal 2(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2010, nid oes modd datgelu'r taliad a wnaed iddo.

Hefyd, roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) yn Reolwr-gyfarwyddwr Gweithredol o 9 Ebrill i 12 Hydref 2010.

Mae gan Reolwr-gyfarwyddwr Dros Dro'r Cyngor, a benodwyd dan gyfarwyddyd y Gweinidog o fis Medi 2009, gcontract cyflogaeth fel Pennaeth y Gwasanaethau Tâl a swydd dan gcontract am wasanaethau drwy asiantaeth trydydd parti. Mae'r contract cyflogaeth am swm nominal o £1. Dan delerau'r contract am wasanaethau, talodd y Cyngor gyfanswm o £124.7k yn 2009-10 am ei wasanaethau.

### 35. PENSIYNAU

Fel rhan o delerau cyflogi ei weithwyr, mae'r Cyngor yn cynnig buddion ymddeol. Er na thelir y buddion hyn hyd nes y bydd y rhai a gyflogir yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud taliadau sydd angen eu datgan ar yr adeg y mae'r cyflogedig yn ennill hawliau i'r dyfodol.

Cyfyd costau'r Cyngor dan ddau gynllun pensiwn gwahanol, gyda'r ddau yn cynnig buddion a ddiffinnir wedi eu seilio ar gyflog terfynol.

#### Athrawon

Cynllun heb gronfa ac yn cael ei weinyddu gan yr Adran Addysg, sy'n pennu cyfraddau'r cyfraniadau ac a gefnogir gan adolygiad actiwaraid o gronfa dybiannol bob pum mlynedd.

Gwnaethpwyd cyfraniadau cyflogwr o £3.032 miliwn yn 2009/10 (£3.058m yn 2008/09) ar gyfradd o 14.1% o'r tâl pensiynadwy (14.1% yn 2008/09). Yn ychwanegol, 'roedd taliadau yn ymwneud ag ychwanegiadau ar gyfer ymddeol yn gynnwys ac ati a wnaed ar sail talu-wrth-fynd yn £0.593 miliwn (£0.592m yn 2008/09) neu 2.73% o'r tâl pensiynadwy (2.81% yn 2008/09).

**Gweithwyr Eraill**

Cynhelir cronfa gan Gyngor Gwynedd dan reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gwneir prisiadau actiwaraidd o bryd i'w gilydd. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r Gronfa ddiwethaf ar 31 Mawrth 2007 a seilir yr amcangyfrif o asedau ac ymrwymadau a roddir isod ar y prisiad hwnnw gyda'r Actiwari yn cymryd cyfraniadau, ymddeoliadau a pherfformiad y gronfa ers y dyddiad hwnnw hyd at ddyddiad y cyfrifon yma, sef 31 Mawrth 2010, i ystyriaeth.

Gwnaethpwyd cyfraniadau cyflogwr o £7.158 miliwn (£6.833m yn 2008/09) ar gyfradd o 21.0% (21.0% yn 2008/09) o'r tâl pensiynadwy yn 2009/10. Mae'r cyfradd yn dilyn prisiad actiwaraidd fel ar 31 Mawrth 2007 (a gafodd ei weithredu yn 2008/09) pan adnabuwyd fod lefel gyllido'r Gronfa ar y dyddiad yna yn 84% (o 74% yn 2004) a bod angen cyfradd gyffredinol o 20.1% i ddod â'r gronfa yn ôl i ariannu 100% dros gyfnod o 20 mlynedd. Roedd cyfradd y Cyngor yn uwch na hyn a phenderfynwyd cynyddu'r raddfa ar unwaith. Roedd taliadau yn ymwneud ag ychwanegiadau ar gyfer ymddeol yn gynnar yn £0.965 miliwn (£0.924m yn 2008/09). Mae Adroddiad Blynyddol ar y Gronfa Bensiwn ar gael gan Adain Bensiynau, Cyngor Gwynedd.

Amcangyfrifir fod cost cyfalaf y cynnydd dewisol yn y taliadau pensiwn y cytunodd yr Awdurdod arno yn ystod 2009/10 yn £Dim (£8,000 yn 2008/09).

**Trafodion yn Ymwneud a Buddiannau Ymddeoliad**

Mae costau buddiannau ymddeoliad yn cael eu hadnabod yng Nghost Net y Gwasanaethau pan fo gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Mae'r hyn y mae'r Cyngor i fod i'w godi yn erbyn y Dreth Gyngor fodd bynnag wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, ac felly mae gwir gost buddiannau ymddeoliad yn cael ei droi allan o'r Datganiad Symudiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor. Mae'r trafodion canlynol wedi eu gwneud yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ac yn y Datganiad Symudiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor:

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
<b><u>Cyfrif Incwm a Gwariant</u></b>		
<b>Cost Net y Gwasanaethau:</b>		
Cost Gwasanaeth Cyfredol	(3,577)	(4,052)
Cost Gwasanaeth yn y Gorffennol	(153)	(1,553)
Effaith setliadau a chwtogiadau	(8)	(21)
<b>Gwariant Gweithredol Net</b>		
Costau Llog	(13,257)	(13,485)
Enillion disgwylidig ar Asedau yn y Cynllun	8,142	11,129
	<b>(8,853)</b>	<b>(7,982)</b>
Treuliau Net i'r Cyfrif Incwm a Gwariant		
<b>Datganiad Symudiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor</b>		
Gwrthdroi treuliau net ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol â FRS 17	751	686
Tâl Swm Gwirioneddol yn erbyn Cronfa Bensiwn y Cyngor am y flwyddyn Cyfraniadau'r Cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun	(8,102)	(7,296)

Yn ychwanegol at yr ennillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n gynnwysedig yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, cynhwyswyd colledion actiwaraidd o £66.106m (cynnydd o £26.644m yn 2008/09) yn y Datganiad ar Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig. Mae'r swm

cronedig ar gyfer enillion a cholledion actiwaraidd ers 2004/05 ac a nodir yn y Datganiad ar Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig yn golled o £101.205m.

Ar dudalen 46, dangosir y tybiaethau (ar chwyddiant prisiau a chynnydd cyflogau a.y.b.) a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y ffigurau yn y tabl yma. Dangosir ar dudalen 45 gostau sy'n deillio o addasiadau i amcangyfrifon a wnaethpwyd yn y blynyddoedd blaenorol (e.e. yr enillion disgwylidig o fuddsoddiadau).

### **Asedau ac Ymrwymadau yn ymwneud â Buddiannau Ymddeoliad**

Mae'r crynodeb isod yn dangos y symudiad yn yr ymrwymiad pensiwn net yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010:

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
Ymrwymiad pensiwn net ar 1 Ebrill	69,033	41,701
Costau Gwasanaeth Cyfredol	3,577	4,052
Cyfraniad Cyflogwr yn daladwy i'r Cynllun	(8,102)	(7,296)
Costau Gwasanaeth blaenorol / Côt Cwtogiad	161	1,574
Llog / Enillion ar Asedau (Net)	5,116	2,357
Colled Actiwaraidd	66,106	26,645
<b>Ymrwymiad pensiwn net ar 31 Mawrth</b>	<b>135,891</b>	<b>69,033</b>

Cysoni gwerth presennol ymrwymadau'r cynllun :

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
Ymrwymadau ar 1 Ebrill	(192,984)	(194,584)
Costau Gwasanaeth Cyfredol	(3,577)	(4,053)
Costau Llog	(13,257)	(13,486)
Cyfraniadau gan Cyfranogwyr y Cynllun	(2,142)	(2,038)
Cynnydd a (Cholledion) Actiwaraidd	(107,003)	16,829
Buddiannau a dalwyd	7,590	6,354
Costau Gwasanaeth Blaenorol a Cholledion ar Gwtogiadau	(161)	(2,006)
<b>Ymrwymadau ar 31 Mawrth</b>	<b>(311,534)</b>	<b>(192,984)</b>

Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun:

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
Asedau ar 1 Ebrill	123,950	152,883
Cyfradd Enillion disgwylidig	8,142	11,129
Cynnydd a (Cholledion) Actiwaraidd	40,897	(43,474)
Cyfraniadau y Cyflogwr	7,179	6,828
Cyfraniadau yn ymwneud â buddiannau heb eu cyllido	923	900
Cyfraniadau gan Cyfranogwyr y Cynllun	2,142	2,038
Buddiannau a dalwyd	(7,590)	(6,354)
<b>Asedau ar 31 Mawrth</b>	<b>175,643</b>	<b>123,950</b>

Y gwir enillion ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn oedd £49.039 miliwn (£31.882 miliwn yn 2008/09).

**Hanes y Cynllun**

	2009/10 £'000	2008/09 £'000	2007/08 £'000	2006/07 £'000	2005/06 £'000
Gwerth Presennol yr Ymrwymadau	(311,534)	(192,984)	(194,584)	(190,109)	(189,401)
Gwerth teg yr Asedau	175,643	123,951	152,883	138,794	127,661
<b>Gwarged / (Diffyg) y Cynllun</b>	<b>(135,891)</b>	<b>(69,033)</b>	<b>(41,701)</b>	<b>(51,315)</b>	<b>(61,740)</b>

Nid yw'r diffyg yma yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gronfeydd dosbarthadwy y Cyngor, ond gall ddylanwadu ar gyllidebau'r dyfodol gan fod diffygion yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu cyfradd y cyflogwr yn ystod yr adolygiad bob tair blynedd.

**Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymadau**

Mae'r ymrwymadau wedi eu hasesu ar sail actiwaraidd yn defnyddio'r dull uned gynlluniedig, amcangyfrif o'r pensiynau fydd yn daladwy ym mlynnyddoedd y dyfodol yn ddibynnol ar ragdybiaethau ynglyn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau a.y.b.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw :

	2009/10	2008/09
<b>Tybiaethau Marwolaethau:</b>		
Hirhoedledd o 65 ar gyfer Pensiynwyr Presennol:		
Dynion	20.8 bl	19.6 bl
Merched	24.1 bl	22.5 bl
Hirhoedledd o 65 ar gyfer Pensiynwyr y Dyfodol:		
Dynion	22.3 bl	20.7 bl
Merched	25.7 bl	23.6 bl
Cyfradd Chwyddiant	3.80%	3.10%
Cyfradd Cynnydd yng nghyflogau	5.30%	4.60%
Cyfradd Cynnydd ym mhensiynau	7.20%	3.10%
Cyfradd ar gyfer ymrwymadau y cynllun disgowntio	5.50%	6.90%
Dewis derbyn i droi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
ar gyfer gwasanaeth cyn Ebrill 2008	50%	50%
ar gyfer gwasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75%	50%

Defnyddiwyd y gwerth a rhaniad asedau canlynol ar gyfer cyfran y Cyngor oddi mewn Cronfa Gwynedd ynghyd â'r enillion disgwylidig a nodir er mwyn gwneud yr asesiad:-

Ased	Mawrth 2010			Mawrth 2009		
	Swm £ miliwn	Rhaniad Asedau	Cyfradd Enillion a ddisgwylir	Swm £ miliwn	Rhaniad Asedau	Cyfradd Enillion a ddisgwylir
Cyfranddaliadau	135.2	77%	7.8%	90.5	73%	7.0%
Bondiau	26.4	15%	5.0%	17.3	14%	5.4%
Eiddo	10.5	6%	5.8%	10	8%	4.9%
Arian	3.5	2%	4.8%	6.2	5%	4.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>175.6</b>	<b>100%</b>		<b>124</b>	<b>100%</b>	

£175.6 miliwn oedd cyfran y Cyngor o'r asedau yma, gan gynnwys elfen y Cyngor o asedau cronfa'r hen Gyngor Sir Gwynedd (£124.0 miliwn ar y 31ain o Fawrth 2009). Yn erbyn hyn, cyfrifwyd fod gan y Cyngor ymrwymadau o £311.534 miliwn (gan gynnwys yr elfen honno o ymrwymadau'r hen Gyngor Sir Gwynedd sy'n disgyn ar y Cyngor) (£192.98 miliwn ar y 31ain o Fawrth 2009) sy'n golygu ymrwymiad net o £135.9 miliwn (£69.0 miliwn ar y 31ain o Fawrth 2009). Mae'r ymrwymadau hyn wedi eu gweithio allan i gynnwys ymrwymadau ar gyfer cynnydd ar ddisgresiwn y tu allan i'r prif gynllun sy'n ymwneud â phenderfyniadau a wnaethpwyd mewn blynyddoedd blaenorol lle bydd dal angen gwneud taliadau ac fe'u hamcangyfrifir yn £15.84 miliwn (£12.75 miliwn ar y 31ain o Fawrth 2009). Mae'r rhain yn cynnwys cyfran o ymrwymadau'r hen Gyngor Sir Gwynedd lle mae gan y Cyngor gyfrifoldeb ac ar gyfer aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

### **Hanes Cynnydd a Cholledion Profiad**

Gellir dadansoddi'r enillion actiwaraid adnabuwyd fel symudiadau ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiwn yn 2009/10 i'r categorïau canlynol, a fesurwyd fel canran o'r asedau a'r ymrwymadau ar 31 Mawrth 2010 :

	2009/10 %	2008/09 %	2007/08 %	2006/07 %	2005/06 %
Gwahaniaeth rhwng enillion disgwylidig a gwir enillion ar asedau	23.3	(35.1)	1.1	0.1	13.7
(Cynnydd) / Lleihad profiad ar ymrwymadau	0.2	0.2	13.5	0.0	0.5

### **36. COSTAU ARCHWILIO**

Codwyd y ffioedd canlynol ar y Cyngor mewn perthynas ag archwilio allanol a'r arolwg statudol:

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
Ffioedd yn daladwy i PricewaterhouseCoopers LLP mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig (1)	176	252
Ffioedd yn daladwy i PricewaterhouseCoopers LLP ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant	136	190
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r arolwg statudol (1)	176	89
Ffioedd yn daladwy i PricewaterhouseCoopers am waith arall	0	0
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru am wasanaethau arall (Menter Twyll Genedlaethol) (2)	0	4

(1) Ar gyfer 2009/10 codir am archwiliad perfformiad gan y Swyddfa Archwilio Cymru, gynt roedd hyn yn cael ei godi gan PwC.

(2) Ail-ddatganwyd 2008/09 i gyfrifo am yr anfoneb hwyr yn ymwneud a gwaith archwilio 2008/09 (NFI).

### **37. ASEDAU AC YMRWYMIADAU AMODOL**

#### **ASEDAU AMODOL**

Dan Bwyllgor 12 Dehongliadau Adrodd ar Safonau Adrodd Cyllidol Rhyngwladol (IFRIC 12), trefnant consesiwn gwasanaeth yw trefniant lle mae llywodraeth neu gorff cyhoeddus arall yn contractio â gweithredwr preifat i ddatblygu (neu uwchraddio), gweithredu a chynnal ased

isadeiledd y rhoddwr. Mae'r rhoddwr yn rheoli neu'n rheoleiddio pa wasanaethau mae angen i'r gweithredwr eu darparu gan ddefnyddio'r asedau, i bwy, ac ar ba bris, a hefyd mae'n rheoli unrhyw fudd gweddilliol sylweddol yn yr asedau ar ddiwedd cyfnod y trefniant.

Mae'r cerbydau casglu gwastraff, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth y Cyngor, yn cael eu prynu a'u cynnal gan weithredwr preifat ac, o'r herwydd, nid ydynt wedi eu cynnwys ar Fantolen y Cyngor. Mae'r Cyngor yn ystyried bod yr asedau yn amodol ar berfformiad y contract ac, felly, mae'n datguddio rhain fel asedau amodol. Nid yw'r prisiad yn cael ei ystyried i fod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### **YMRWYMIADAU AMODOL**

#### **Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi**

Mae 248 aelodau o staff cyfredol a chyn-weithwyr wedi cyflwyno 287 hawliad tâl cyfartal, sydd wedi eu rhoi ymlaen i'r tribiwnlys. Mae'r Cyngor yn bwriadu amddiffyn yr hawliadau hyn. Sefydlwyd arian wrth gefn yng nghyfrifon yr awdurdod tuag at costau posibl yn deillio o Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi.

#### **Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983**

Yn dilyn dyfarniadau a gadarnhawyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac adroddiad diweddar gan Ombwdsmon Llywodraeth Leol ar achosion prawf mewn lleoedd eraill, nid oedd grym i godi am wasanaethau a ddarparwyd dan adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae'r Cyngor yn wynebu ad-daliadau. Mae pedwar achos wedi eu setlo. Mae cyfanswm yr ymrwymiad hwn yn anodd i'w gyfrifo ond mae £0.33 miliwn yn weddilliol o'r swm a neilltuwyd i un ochr fel arian wrth gefn clustnodedig ar gyfer ad-daliadau o'r fath.

### **38. DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN**

Mae'r digwyddiadau canlynol yn cael eu hystyried yn ddigwyddiadau ôl-fantolen:

#### **Pensiynau**

Yn ei Gyllideb Argyfwng ar 22 Mehefin 2010, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys mai'r mynegai pris defnyddwyr yn hytrach na'r mynegai pris manwerthu fydd sail cynnydd pensiynau sector cyhoeddus yn y dyfodol. Yn unol â pharagraff 21 o Safon Adrodd Ariannol 21 (Digwyddiadau ôl-fantolen), mae'r newid hwn yn ddigwyddiad heb addasiad ôl-fantolen. Amcangyfrifwyd y bydd y newid hwn ar gyfartaledd yn lleihau gwerth ymrwymadau FRS17 y cyflogwr yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd rhwng 6 – 8%. Seilwyd yr amcangyfrif hwn ar gyflogwr gyda proffil aelodaeth "nodweddiadol". Mae hyn yn ostyngiad o rhwng £18 i £25 miliwn i'r awdurdod.

#### **Hyfforddiant Môn**

Yn dilyn o benderfyniad gan Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu trefniadau Darparwyr Hyfforddiant yng Nghymru, fe gyrhaeddwyd cytundeb yng Ngogledd-Orllewin Cymru y byddai Hyfforddiant Môn ynghyd â Hyfforddiant Gwynedd yn cyfuno â, a throsglwyddo i, Goleg Menai ar 1 Awst 2010.

O ganlyniad, fe fydd asedau, sy'n bennaf yn offer a dodrefn perthnasol, yn trosglwyddo i Coleg Menai. Ni gynhwysir ddim trosglwyddiad na gwerthiant o asedau tir ac adeiladau. Roedd cyfanswm gwariant referniw gros Hyfforddiant Môn am 2009-10 yn £1.595 miliwn, a'r incwm gros am y flwyddyn yn £1.637 miliwn.

**39. DATGANIAD CYFRIFON**

Awdurdodwyd rhyddhau'r Datganiad Cyfrifon gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) ar 14 Rhagfyr 2010. Rhoddwyd ystyriaeth i ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen hyd at y dyddiad y rhoddwyd awdurdod i gyhoeddi'r cyfrifon.

**40. TRAFODION GYDA CHYRFF CYSYLLTIEDIG**

Mae trafodion sylweddol gyda'r Llywodraeth yn cael eu crynhoi yn y Datganiad Llif Arian.

Manylir ar drafodion gydag is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig yn Nodyn 41, a manylir ar drafodion gydag Ymddiriedolaethau y mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr iddynt yn Nodyn 43.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff cyhoeddus sy'n codi ardoll ar gyllideb y Cyngor. Ceir manylion y rhain yn Nodyn 32.

Mae'r Cyngor hefyd yn penodi aelodau i rai cyrff cyhoeddus, elusennol a gwirfoddol. Yn ystod 2009/10, talwyd cyfanswm o £5,506,790 mewn grantiau neu ar gyfer prynu gwasanaethau gan y cyrff hyn (£5,693,225 yn 08/09).

Mae'r Cyngor yn aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a thalwyd tanysgrifiad o £73,427 iddi yn 2009/10 (£72,750 yn 08/09).

Mae aelodau wedi datgan diddordebau mewn contractau, neu mewn cyrff a all fod yn ymdrin â'r Cyngor, yn y Gofrestr Statudol o Ddiddordebau Aelodau. Talwyd cyfanswm o £673,248 gan y Cyngor yn 2009/10 dan y diddordebau hyn (£544,766 yn 08/09). Caiff rhai taliadau budd-dal tai eu cyflwyno'n uniongyrchol i landlordiaid yr eiddo; yn 2009/10 talwyd £18,418 i dri Aelod o'r Cyngor (neu eu cyrff cysylltiedig) fel hyn (£12,964 yn uniongyrchol i dri Aelod o'r Cyngor yn 08/09).

Mae un o Gyfarwyddwyr Corfforaethol y Cyngor yn perthyn i aelod o fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru. Mae pedwar aelod / swyddog o'r Cyngor, gan gynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn aelodau o Fwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn. Cafodd y ddau gorff eu cyfuno gyda nifer o gyrff GIG eraill yn Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Hydref 2009 ac yn ystod y flwyddyn gwnaethpwyd y trafodion canlynol gyda'r corff hwnnw a'i ragflaenwyr:

- taliadau i'r corff cysylltiedig	£ 1,110,152
- derbyniadau o'r corff cysylltiedig	£ 2,570,650



**41. DIDDORDEB MEWN CWMNIAU**

Mae gan y Cyngor ddiddordeb o 50% mewn dau gwmni, ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd:-

**Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf**

Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol yw Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf a sefydlwyd ar y cyd gan ragflaenwyr Cyngorau Ynys Môn a Gwynedd ym 1994. Roedd y cwmni yn rhedeg dau safle rheoli gwastraff yn Ynys Môn a Gwynedd oedd ar les gan yr Awdurdodau Lleol. Roedd y rhan fwyaf o weithgaredd y cwmni yn ymwneud â chontractau â'r ddau Awdurdod Lleol.

Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, penderfynodd y ddau Gyngor ddirwyn y cwmni i ben yn ystod 2007/08 ac ymgymryd â'r gwaith yn fewnol. Yn Ionawr 2008, trosglwyddwyd yr asedau a'r ymrwymadau gweithredol perthnasol a'r staff i'r Cyngor, ynghyd â'r swm balans mewn arian parod. Mae'r buddsoddiad wedi cael ei ailbriso bob blwyddyn ac mae'r rhan fwyaf o arian y cyfranddaliad wedi cael ei dalu'n ôl i'r ddau gyngor. Nid yw'r budd gweddilliol yn y cwmni ar 31 Mawrth 2010 yn faterol i gyfrifon y Cyngor.

**Cwmni Cynnal Cyf**

Sefydlwyd y cwmni hwn adeg ad-drefnu llywodraeth leol ar y cyd rhwng Cyngorau Ynys Môn a Gwynedd. Mae'n darparu gwasanaethau cefnogaeth addysg dan gytundeb i ysgolion unigol ac i awdurdodau addysg lleol a gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Dim ond i hyrwyddo ei amcanion y mae modd defnyddio incwm y cwmni. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt. Gwnaed taliadau gan y Cyngor, a chan gynnwys ei ysgolion, o £1.998 miliwn yn ystod 2009/10 (£2.109 miliwn yn 2008/09).

Mae cyfrifon y Cwmni am 2009/10 yn dangos incwm net o £0.29 miliwn (incwm net o £0.17 miliwn yn 2008/09). Trosiant y Cwmni am 2009/10 oedd £6.26 miliwn (£6.09 miliwn yn 2008/09). Dangosodd cyfrifon cyhoeddedig y Cwmni ymrwymadau net o £4.99 miliwn ar 31 Mawrth 2009 (asedau net o £1.17 miliwn yn 2008/09) ar 31 Mawrth 2010.

Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Cwmni Cynnal Cyf, Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd. Mae adroddiad yr archwilyr ar y cyfrifon am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2010 yn ddiamod.

Mae gan y Cyngor ddiddordebau mewn cwmnïau fel a ganlyn:-

**WJEC CBAC Limited**

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Limited, cwmni elusennol y mae'r 22 awdurdod unedol Cymru yn aelodau ohono. Ei swyddogaeth yw darparu gwasanaethau arholiad a datblygu a hyrwyddo gwasanaethau addysg a diwylliant eraill. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod 2009/10 talodd y Cyngor £0.334 miliwn (£0.314 miliwn yn 2008/09) am brynu gwasanaethau'r cwmni.

Mae cyfrifon y cwmni am 2008/09 yn dangos symudiad net negyddol mewn cronfeydd o £5.70 miliwn (symudiad net mewn cronfeydd o £2.16 miliwn yn 2007/08). Trosiant y Cwmni am 2008/09 oedd £32.49 miliwn (£29.56 miliwn yn 2007/08) a'i asedau net yn £6.89 miliwn (£12.58 miliwn yn 2007/08) ar 30 Medi 2009.

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o WJEC CBAC Cyfyngedig, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandâf, Caerdydd, CF5 2YX. Mae adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon am y cyfnod i 30 Medi 2009 yn ddiamod.

**Menter Môn Cyfyngedig**

Mae'r Cyngor yn aelod o Menter Môn Cyf, ac yn un o 3 aelod ar 31 Mawrth 2010. Mae'r cwmni yn hyrwyddo tyfiant economaidd ym Môn wledig. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod 2009/10 talodd y Cyngor £0.474 miliwn i'r cwmni i gefnogi ei weithgareddau (£0.127miliwn yn 2008/09).

Mae cyfrifon y Cwmni am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2009 yn dangos incwm net (ar ôl treth) o £99,456 (incwm net o £51,701 yn 2008). Trosiant y Cwmni am 2009 oedd £1.80 miliwn (£3.51 miliwn yn 2008) a'i asedau net yn £1.69 miliwn (£0.45 miliwn yn 2008) ar 31 Rhagfyr 2009.

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o Menter Môn, Llys Goferydd, Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Môn. Mae adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon am y cyfnod i 31 Rhagfyr 2009 yn ddiamod.

**42. YSGOL SEFYDLEDIG CAERGEILIOG**

Mae balansau ar gyfer asedau ac ymrwymadau cyfredol dan reolaeth Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys yn y cyfrifon yma, ac felly o ran cronfeydd yr ysgol, dim ond eu hasedau cyfredol net sy'n cael eu cynrychioli ar y fantolen gyfun hon. Mae gan yr ysgol asedau sefydlog diriaethol yn ogystal. Dangosir y rhain fel £706,850 (£736,732 ar 31 Mawrth 2009) ym mantolen yr ysgol ar sail cyfuniad o brisiant a chost hanesyddol, llai dibrisiant. Mae'r asedau sefydlog wedi eu breinio yng Nghorff Llywodraethu'r ysgol ac ni chânt eu cyfuno yn y fantolen hon.

**43. CRONFEYDD YMDDIRIEDOL**

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr i nifer o gronfeydd ymddiriedol. Nid asedau yn perthyn i'r Cyngor yw'r cronfeydd hyn ac o'r herwydd ni chânt eu cynnwys ym Mantolen Gyfun y Cyngor. Nid yw eu cyfrifon yn ymddangos bellach yn y Datganiad Cyfrifon hwn, ond maent ar gael gan yr Adran Gyllid. Yn ychwanegol at gymynroddion i bethau megis gwobrau mewn ysgolion, a chysuron a gwelliannau yn Sefydliadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gronfeydd Ymddiriedol fel a ganlyn:-

**Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif 1000818)**

Y Cyngor yw unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, sef ymddiriedolaeth a sefydlwyd i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gydag arian a gafwyd gan Shell (UK) Limited pryd y daeth gwaith y cwmni i ben yn y lanfa olew oedd ganddo ym Môn. Amcanion yr Ymddiriedolaeth Elusennol yw darparu cyfleusterau er lles cyffredinol pobl sy'n byw yn Ynys Môn. Mae'n gwneud hyn trwy gyfrannu tuag at wariant ar wasanaethau cyhoeddus a thrwy roi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Gweinyddir y gronfa gan y Cyngor yn ddi-dâl. Yn 2009/10 derbyniodd y Cyngor £270,000, tuag at gostau rhedeg Oriol Ynys Môn.

**Cronfa'r Degwm**

Ar hyn o bryd gweinyddir buddsoddiadau'r gronfa gan Gyngor Gwynedd ar ran yr awdurdodau a olynodd hen Gyngor Sir Gwynedd er bod cynlluniau i'w trosglwyddo i'r Cyngor hwn. Yn y cynllun i weinyddu'r gronfa dywedir y bydd raid defnyddio'r incwm at ddibenion elusennol - rhai addysgol, adloniadol a chymdeithasol - yn ôl dewis llwyr y Cyngor.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)**

Mae 75% o'r incwm net o Stâd Elusennol David Hughes yn ffurfio rhan o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - sef Cronfa y mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr iddi. Defnyddir yr incwm i ddibenion addysgol penodol. Telir y 25% arall i "Elusen David Hughes er Lles y Tlodion", elusen nad yw'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gweinyddu'r stâd ac yn 2009/10 derbyniodd ffi o £6,590 am y gwasanaeth.

Ar 31 Mawrth 2010, roedd balansau'r Cronfeydd Ymddiriedol (yn ôl gwerth yr asedau ar y farchnad) yn:-

	2009/10					2008/09
	Incwm	Gwariant	Asedau	Ymrwym.	Balans	Balans
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (*)	460	400	15,872	383	15,489	12,101
Cronfa'r Degwm (**)	16	20	578	0	578	586
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (*)	85	111	1,834	0	1,834	1,812

(\*) Ffigyrau 2008/09 wedi eu hailddatgan i adlewyrchu cyfrifon terfynol.

(\*\*) Cyfran Ynys Môn yn unig

Cyfanswm gwerth y cronfeydd eraill ar 31 Mawrth 2010, gan gynnwys buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad yw £185,000 (£193,000 ar 31 Mawrth 2009).

**DATGANIADAU ARIANNOL YCHWANEGOL****CYFRIF INCWM A GWARIANT**  
**CYFRIF REFENIW TAI**

	Nodyn	2009/10 £'000	2008/09 £'000
<b>INCWM</b>			
Rhenti Tai ( gros)		(11,012)	(10,933)
Rhenti eraill		(178)	(175)
Codi am Wasanaethau a Chyfleusterau		(48)	(56)
Cyfraniadau tuag at wariant		(453)	(447)
Incwn Eraill		(5)	0
		(11,696)	(11,611)
<b>GWARIANT</b>			
Atgyweirio a Chynnal a Chadw	2	3,954	3,916
Goruchwyllo a Rheoli		1,322	1,048
Gwasanaethau Arbennig		653	551
Rhenti, Trethi a threuliau Eraill	5	87	909
Cymhorthdal Negyddol yn Daladwy ar y Cyfrif Refeniw Tai	3	1,797	1,749
Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac ansicr		53	67
Disbrisiant ac amhariad asedau sefydlog	7	6,714	19,297
Costau rheoli dyled		10	10
		14,590	27,547
<b>Cost Net Gwasanaethau CRT fel Cyfrif Incwm a Gwariant</b>		<b>2,894</b>	<b>15,936</b>
Cyfran Gwasanaeth CRT o'r Costau Corfforaethol a Democraidaidd		55	55
<b>Cost Net y Gwasanaethau CRT</b>		<b>2,949</b>	<b>15,991</b>
<b>Rhan CRT o'r incwm a gwariant gweithredol yn gynnwysedig yng Nghyfrif Incwm a Gwariant yr Awdurdod cyfan</b>			
Llog sy'n daladwy a threuliau cyffelyb		830	733
Incwm Llog a Buddsoddiad		(62)	(62)
<b>Diffyg am y Flwyddyn yng nghyswllt Gwasanaethau CRT</b>		<b>3,717</b>	<b>16,662</b>

Mae'r Cyngor wedi diwygio ei bolisi o ran costau Corfforaethol a Democraidaidd a ddaw o'r Cyfrif Refeniw Tai o 2009/10, a diwygiwyd y flwyddyn flaenorol ar gyfer pwrpas cymharu.

**DATGANIAD SYMUDIADAU AR FALANS Y CRT 2009/10**

<b>DATGANIAD SYMUDIADAU AR Y FALANS Y CRT</b>	<b>2009/10 £'000</b>	<b>2008/09 £'000</b>
Diffyg yn y flwyddyn ar Gyfrif Incwm a Gwariant y CRT	3,717	16,662
Y swm net ychwanegol y mae'n rhaid, dan statud, ei roddi fel credyd ym Malans y CRT am y flwyddyn	(4,257)	(16,554)
<b>(Cynnydd) neu Ostyngiad yn y Cyfrif Refeniw Tai</b>	<b>(540)</b>	<b>108</b>
Balans y Cyfrif Refeniw Tai a ddygwyd ymlaen	(1,781)	(1,889)
<b>Balans y Cyfrif Refeniw Tai i'w ddwyn ymlaen</b>	<b>(2,321)</b>	<b>(1,781)</b>

**NODYN YNGHLWM WRTH Y DATGANIAD SYMUDIADAU AR FALANS Y CRT 2009/10**

	<b>2009/10</b>		<b>2008/09</b>	
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Symiau a gynhwyswyd yng Nghyfrif Incwm a Gwariant y CRT ond heb eu cynnwys yn y Symudiadau ar Falans y CRT am y flwyddyn</b>				
Dibrisiant yn yr asedau sefydlog	(6,713)		(19,297)	
Taliadau Net ar gyfer buddiannau ymdeol yn unol â FRS 17	(52)		(65)	
		<b>(6,765)</b>		<b>(19,362)</b>
<b>Symiau heb eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond wedi eu cynnwys yn y Symudiadau ar Falans Cronfa'r CRT am y flwyddyn</b>				
Gwahaniaethau yn y symiau a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant i amorteiddio premiymau a disgowntiau a phenderfynu ar y tâl am y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(21)		28	
Lleiafswm Cyfraniad Refeniw y CRT	260		249	
Gwariant Cyfalaf a gyllidir o'r CRT	2,160		2,416	
Cyfraniadau'r Cyflogwr sy'n daladwy i'r Gronfa Bensiwn	109		115	
		<b>2,508</b>		<b>2,808</b>
<b>Y Swm Ychwanegol Net sy'n Angenrheidiol dan statud i'w roddi mewn credyd ym malans y CRT am y flwyddyn</b>		<b>(4,257)</b>		<b>(16,554)</b>

**NODIADAU AR Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)****1. FFRAMWAITH CYFRIFEG CYFRIF REFENIW TAI DIWYGIEDIG**

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn adlewyrchu'r goblygiadau statudol i gynnal cyfrif refeniw ar gyfer darpariaeth tai awdurdod lleol, mewn ffurf a ddiffinnir yn benodol yn unol ag Adran 6 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'r Ddeddf yn amlinellu eitemau debyd a chredyd i'w hystyried wrth gyfrifo'r gwarged a'r diffyg ar y CRT am y flwyddyn. Mae'r symiau a gynhwysir yn y CRT yn wahanol i'r symiau yn ymwneud â gwasanaethau'r CRT a gynhwysir yng Nghyfrif Incwm a Gwariant yr awdurdod cyfan.

Cwblheir cyfrif CRT yn unol â gweithdrefnau penodol statudol ac anstatudol ac wedi ei rannu yn ddwy ran.

Cyfrif Incwm a Gwariant CRT - dengys mewn mwy o fanylder incwm a gwariant gwasanaethau CRT sy'n cael ei gynnwys yng nghyfrif incwm a gwariant yr awdurdod.

Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT - dengys sut mae gwarged neu ddiffyg ar gyfrif incwm a gwariant y CRT am y flwyddyn yn cysoni â'r symudiadau ar falans y CRT am y flwyddyn.

**2. GWARGED**

£540,000 yw'r gwarged ar y CRT am y flwyddyn. Mae hyn yn well na'r gwarged y cyllidwyd amdano o £14,000 a'r diffyg diwygiedig yn y gyllideb o £399,000. Y brif amrywiaeth yw'r ffaith fod gwariant goruchwylio a rheoli yn is na'r gyllideb.

Yn ystod y flwyddyn defnyddiwyd cyfraniad o refeniw o £2,160,000 (£2,416,000 yn 2008/09) i gyllido gwariant cyfalaf ar dai cyngor, fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i wella ei stoc dai.

Mae'r gwarged CRT wedi ei ddatgan ar ôl cynnwys gwarged o £186,000 (£554,000 yn 2008/09) o weithgareddau Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau'r Cyngor. Mae'r swm yma yn deillio o waith ar eiddo'r CRT gan y Gweithlu, ac yn unol ag arferion cyfrifeg mae'r gwarged wedi ei ddychwelyd i'r CRT. Mae'r swm wedi ei netio yn erbyn gwariant ar gynnal a chadw.

**3. CYMHORTHDAL TAI**

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
Lwfans Rheoli a Chynnal a Chadw	7,655	7,260
Codi am gyfalaf	1,003	1,002
Eitemau eraill o wariant cyfrifadwy	0	827
Llog ar dderbyniadau	(1)	(1)
Incwm tybiannol o renti	(10,934)	(10,836)
Addasiadau blynyddoedd y gorffennol	480	0
<b>Cymhorthdal Tai yn daladwy i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>(1,797)</b>	<b>(1,748)</b>

Yn dilyn adolygiad o'r dyledwr cronedig am daliadau cymhorthdal dai, lleihawyd y cyfanswm croniad gan £480,000.

**4. STOC DAI**

Ar 1 Ebrill 2009 roedd gan y Cyfrif Refeniw Tai 3,818 o anheddau. Oherwydd gwerthu 4 ohonynt trwy'r cynllun "hawl i brynu" (7 yn 2008/09), roedd y cyfanswm wedi gostwng i 3,814 ar 31 Mawrth 2010.

Cafodd y stoc o eiddo ar brydles (179 ohonynt ar 1 Ebrill 2009) eu trosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Cyngor wedi i'r grant ar gyfer y Cynllun Prydlesu Sector Preifat ddod i ben.

Mae'r stoc sy'n weddill yn ymrannu fel a ganlyn:

	31 Mawrth	
	2010	2009
<b>STOC Y CYNGOR</b>		
Tai	2,040	2,044
Byngalos	1,044	1,044
Fflatiau	723	723
Fflat un ystafell	7	7
Cyfanswm y Cyngor	3,814	3,818
<b>STOC AR BRYDLES</b>		
Unedau wedi eu trwyddedu	202	179
<b>CYFANSWM STOC RHWYMEDIG</b>	4,016	3,997

**5. ÔL-DDYLEDION RHENT A DARPARIAETH AR GYFER DRWG DDYLEDION A DYLEDION AMHEUS**

Roedd ôl-ddyledion rhent ar 31 Mawrth 2010 yn £580,000 (£547,000 ar 31 Mawrth 2009). Nid yw hyn yn cynnwys blaendaliadau o £73,000 ar 31 Mawrth 2010 (£78,000 ar 31 Mawrth 2009).

Mae darpariaeth yn y Fantolen ar gyfer drwg dyledion a dyledion amheus. Roedd y rhain yn cynnwys £436,000 ar gyfer rhenti a £465,000 mewn cyfanswm ar gyfer talwyr rhenti (£405,000 a £433,000 yn 2008/09).

Mae'r ffigyrau ar gyfer 2009 wedi eu hailddatgan i hepgor y dyledion Prydlesu Sector Preifat o £98,000, blaendaliadau o £5,000 a'r ddarpariaeth drwg dyledion o £87,000. Trosglwyddir y rhain i Gronfa'r Cyngor.

**6. GWARIANT A CHYLLIDO CYFALAF**

Yn ystod 2009/10, gwariwyd £9.5m (£6.5m yn 2008/09) ar Dai'r Cyngor. Cyllidwyd hyn fel a ganlyn:

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
Benthyciad	4,643	1,000
Grantiau - Lwfans Trwsio Sylweddol	2,600	2,600
- Eraill	0	95
Derbyniadau Cyfalaf	122	225
Refeniw a Balansau	2,100	2,568
	<b>9,465</b>	<b>6,488</b>

Defnyddiwyd y cyfan o'r Lwfans Trwsio Sylweddol o £2.6 miliwn yn ystod y flwyddyn. Mae'r Benthyciadau yn cynnwys benthyciadau gyda chefnogaeth (£1.0m) a benthyciadau digefnogaeth (£3.6m) – (benthyciadau gyda chefnogaeth oedd y cyfan yn 2008/09).

Roedd derbyniadau cyfalaf fel a ganlyn:

	2009/10		2008/09	
	Nifer	Derbyniadau £'000	Nifer	Derbyniadau £'000
Tai Cyngor	4	200	7	311
Tir	2	68	0	0
Ad-daliadau Morgeisi	-	2	-	2

## 7. DIBRISIANT

Codir am ddibrisiant ar sail llinell-syth ar holl asedau sefydlog diriaethol gydag oes ddefnyddiol gyfyngedig, ac eithrio tir sydd ddim yn dibrisio. Mae anheddau'r Cyngor yn cael eu dibrisio dros 30 mlynedd.

## 8. EIDDO PRYDLES

Ar 1 Ebrill 2009, cafodd y stoc o 179 o eiddo prydles ei drosglwyddo i Gronfa'r Cyngor wedi i'r grant Cynllun Prydlesu Sector Preifat ddirwyn i ben. Cyfanswm y gost o daliadau i landlordiaid yn 2008/09 oedd £830,000 wedi'i gynnwys o fewn y cyfanswm ar gyfer rhenti, trethi a thaliadau eraill.



## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AR GYFER Y DATGANIAD CYFRIFON

### Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn:

- \* wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) yw'r swyddog hwnnw.
- \* reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon o adnoddau a diogelu ei asedau.
- \* gymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) sydd yn gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon yr awdurdod, yn ôl yr ymarfer cywir fel y'i ceir yng Nghôd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifeg Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig ("Y SORP").

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) wedi:

- \* dewis polisiau cyfrifo addas ac yna eu defnyddio'n gyson.
- \* gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwylllog.
- \* cydymffurfio â'r SORP.

Hefyd mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) wedi:

- \* cadw cofnodion cyfrifo cywir a chyfredol.
- \* cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra.

### Tystysgrif

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon hwn yn cyflwyno'n deg sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a'i incwm a gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010.

Arwyddwyd: .....

**DAVID ELIS-WILLIAMS**  
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)**

**14 RHAGFYR 2010**



**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Yn y fframwaith lywodraethu fe geir y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau wrth iddo fod yn atebol i'r gymuned ac yn cysylltu gyda'r gymuned honno ac yn ei harwain. Mae'n galluogi i'r awdurdod fedru monitro cyraeddiadau ei amcanion strategol ac i ystyried a wnaeth yr amcanion hynny arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno ac fe'i dyluniwyd ar gyfer rheoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly ni all ond darparu sicrwydd o effeithiolrwydd sy'n rhesymol ac nid yn gyfan gwbl. Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaol ddyluniwyd i nodi ac i flaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Cyngor Sir Ynys Môn, i werthuso'r tebygrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith os cânt eu gwireddu ac i'w rheoli hwy'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd.

Bu'r fframwaith lywodraethu yn ei le yng Nghyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

**SGÔP A CHYFRIFOLDEB**

Cyngor Sir Ynys Môn sydd yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei redeg yn ôl y gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif iawn amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae yna ddyletswydd ar Gyngor Sir Ynys Môn o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n ymarfer ei swyddogaethau, gan roi sylw i gyfuniad o economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Wrth ymarfer y cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, hwyluso iddo ymarfer ei swyddogaethau'n effeithiol a hefyd ei drefniadau i reoli risg.

Nid yw'r awdurdod wedi mabwysiadu côd llywodraethu lleol, ond mae'r datganiad hwn yn cymryd i ystyriaeth ganlyniadau'r adroddiad Arolwg Llywodraethu Corfforaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru gyflwynodd adroddiad yn ystod y flwyddyn, a chynnydd wnaed ers hynny fel ymateb i'r adroddiad, fel yr adroddwyd gan y Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro i'r Cyngor Sir ym mis Hydref 2010.

Mae'r datganiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 o safbwynt Datganiad o Reolaeth Fewnol.

Isod, ystyrir pob un o'r chwech egwyddor Llywodraethu Corfforaethol, yn gyntaf mewn perthynas â'r sefyllfa fel yr oedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2009-10, wedyn gan gyfeirio at weithredu mewn llaw dan Gynllun Adfer yr awdurdod. Mae nifer o'r prosiectau yn cyfrannu at mwy nac un egwyddor, ond fe restrir dan y prif egwyddor.

**EGWYDDOR UN: CYSYLLTU GYDA PHOBL LEOL A RHANDDEILIAID ERAILL ER MWYN SICRHAU ATEBOLRWYDD CADARN****TREFNIADAU YN EU LLE**

Mae gan y Cyngor Gynllun Gwella blynyddol sy'n nodi ei brif amcanion am y flwyddyn, ac sydd yn cael ei fabwysiadu yn dilyn ymgynghori gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Fe gafwyd ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â chynlluniau gwasanaeth penodol.

### **ADRODDIAD AROLWG LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, GORFFENNAF 2009**

Fe ddywedodd yr adroddiad na weithredir y cysyniad o arweinyddiaeth gymunedol ac nad oes dealltwriaeth llawn ohono.

#### **Y SEFYLLFA AR 31 MAWRTH 2010**

- Roedd nifer o sioeau ffyrdd wedi'u cynnal gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith er mwyn ymgynghori ar flaenoriaethau strategol yr awdurdod a'r strategaeth ariannol tymor canolog. Mabwysiadwyd y blaenoriaethau a'r strategaeth a ddilynodd o hynny gan y Cyngor ym Mawrth 2010.
- Cyflwynwyd siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio

#### **GWEITHREDU MEWN LLAW I DDELIO Â GWENDIDAU**

- Rhaglen weithredu i gryfhau gweithdrefnau cynllunio ymhellach
- Datblygu'r swyddogaeth craffu a dealltwriaeth o'i rôl
- Prosiect Gwybodaeth Defnyddiwr, datblygu'r strategaeth ymgysylltu a gwella mynediad i wybodaeth ar y wefan
- Prosiect Arweinyddiaeth Gymunedol
- Adnewyddiad Democrataidd, yn aelu i gynyddu y nifer sy'n pleidleisio a nifer ymgeiswyr.

### **EGWYDDOR DAU: AELODAU A SWYDDOGION YN GWEITHIO GYDA'I GILYDD I GYRRAEDD UN PWRPAS CYFFREDINOL GYDA SWYDDOGAETHAU A ROLAU WEDI'U DIFFINIO'N GLIR**

#### **TREFNIADAU YN EU LLE**

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys cynlluniau dirprwyo i aelodau a swyddogion, rheolau a phrotocolau gweithdrefn. Mae dogfennau eraill fel swydd ddisgrifiadau yn diffinio swyddogaethau a rolau gwahanol aelodau a swyddogion.

### **ADRODDIAD AROLWG LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, GORFFENNAF 2009**

Nododd yr adroddiad bod yna wrthdaro rhwng aelodau a thoriad mewn ymddiriedaeth rhwng aelodau ac uwch reolwyr. Roedd yn cyfeirio hefyd at ddealltwriaeth wael o rolau a chyfrifoldebau, a diffyg eglurder.

#### **Y SEFYLLFA AR 31 MAWRTH 2010**

- Cafwyd cytundeb ar osod o'r neilltu y prif faterion oedd wedi achosi gwrthdaro rhwng aelodau ac uwch reolwyr.
- Eglurder rôl aelodau mewn perthynas â swyddi gweigion ac ailstrwythyro ar raddfa fechan
- Ailsefydlwyd y cyfarfodydd rheolaidd rhwng Arweinyddion Grwpiau
- Ailsefydlwyd y cyfarfodydd rheolaidd rhwng aelodau'r Pwyllgor Gwaith a'r rheolwyr.

**GWEITHREDU MEWN LLAW I FYND I'R AFAEL Â GWENDIDAU**

- Eglurwyd a chryfhawyd rôl Cadeirydd y Cyngor
- Adnewyddu cyfarfodydd briffio o flaen y Cyngor
- Hwyluswyd Gweithdai i wella'r berthynas rhwng aelodau (Pwyllgor Gwaith a rhai ddim ar y Pwyllgor) a swyddogion.
- Adolygiad o'r Cyfansoddiad ar droed.
- Gwella'r adolygiad ehangach o strwythur y Cyngor
- Adolygu Rheolaeth y Sefydliad, gan egluro yn well arweinyddiaeth stratgeol a gweithredol.

**EGWYDDOR TRI: DATBLYGU CAPASITI A GALLU AELODAU A SWYDDOGION I FOD YN EFFEITHIOL****TREFNIADAU YN EU LLE**

Trefniadau sefydlog i ddarparu hyfforddiant i aelodau a swyddogion sydd yn addas i'w rolau. Mae rheoli perfformiad a threfniadau gwerthuso yn helpu i nodi anghenion hyfforddi.

**AROLWG LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, GORFFENAF 2009**

Roedd yr adroddiad yn nodi manau lle'r oedd aelodau a swyddogion yn llai na hollol effeithiol oherwydd nad oedd rolau a chyfrifoldebau wedi'u deall yn dda neu oherwydd bod adnoddau wedi'u hailgyfeirio er mwyn lleddfu gwrthdaro.

**SEFYLLFA AR 31 MAWRTH 2010**

- Digwyddiadau hyfforddi aelodau, seminarau neu weithdai wedi'u cynnal i aelodau Pwyllgor Gwaith, Sgriwtini, Cynllunio ac Archwilio.
- Ailstrwythurwyd swyddfa'r Rheolwr Gyfarwyddwr
- Cytunwyd y Cynllun Rheoli Asedau

**GWAITH MEWN LLAW I FYND I'R AFAEL Â GWENDIDAU**

- Rhaglen Hyfforddi Aelodau, yn cynnwys dynodi 'Pencampwr' a Gweithgor Datblygu Aelodau
- Cyflwyno Gwerthuso ac Anwytho Cyngorwyr
- Gweithdrefnau newydd i werthuso Cyfarwyddwyr Corfforaethol
- Rheolwr Môn ("rheoli pobl, rheoli cyllid, rheoli perfformiad")
- Datblygu Capasiti Rheoli Newid
- Gwella Cynllunio Busnes a dull corfforaethol o reoli perfformiad
- Cyflwyno adolygiadau rheoli'r sefydlaid
- Adolygu swyddogaethau cefnogi canolog

**EGWYDDOR PEDWAR: CYMRYD PENDERFYNIADAU GWYBODUS A THRYLOYW SY'N DESTUN SGRIWTINI EFFEITHIOL A RHEOLI RISG****TREFNIADAU YN EU LLE**

Mae'r Cyfansoddiad a gweithdrefnau cysylltiol yn sefydlu cyfrifoldebau dros wneud

penderfyniadau. Fe wneir penderfyniadau gan gymryd sylw o gyngor proffesiynol priodol. Mae penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn cael eu cyhoeddi ac maent yn destun sgrwtini. Mae trefniadau rheoli perfformiad ac archwilio mewnol yn adolygu'r canlyniadau.

### **AROLWG LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, GORFFENAF 2009**

Mae'r adroddiad yn dweud nad oedd gan y Cyngor fframwaith effeithiol o atebolrwydd, gan nodi bod rheoli perfformiad yn aneffeithiol, a hefyd sgrwtini ac nad oedd ond rôl gyfyngedig i'r Pwyllgor Archwilio.

#### **Y SEFYLLFA AR 31 MAWRTH 2010**

- Cael gwared â'r Cyngor Sir fel Pwyllgor Cynllunio.
- Cynhaliwyd hunanasesiad o'r Pwyllgor Archwilio.

#### **GWEITHREDU MEWN LLAW I FYND I'R AFAEL Â GWENDIDAU**

- Gwella'r Pwyllgor Archwilio
- Fframwaith o Gefnogaeth i Aelodau
- Rhaglen Datblygu Craffu
- Balansio Cadeirddion ac Is-Gadeiryddion y swyddogaeth Craffu
- Mwy o gefnogaeth i'r swyddogaeth craffu
- Rheoli Perfformiad: cryfhau trefniadau monitro, adolygu cyfarfoddydd perfformiad chwarterol, datblygu defnydd pecyn rheoli perfformiad 'Ffynnon'

#### **EGWYDDOR PUMP: HYRWYDDO GWERTHOEDD I'R AWDURDOD AC ARDDANGOS GWERTH LLYWODRAETHU DA TRWY GYNNAL SAFONAU UCHEL O YMDDYGIAD**

#### **TREFNIADAU YN EU LLE**

Polisi llygredd a gwrthdwyll y Cod Ymddygiad a threfniadau cwyno yn rhan o'r Cyfansoddiad. Mae gan y Cyngor Swyddog Monitro a Phwyllgor Safonau.

### **AROLWG LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, GORFFENAF 2009**

Roedd yr adroddiad gan mwyaf yn feirniadol o wrthdaro ac ymddygiad amhriodol gan Gynghorwyr, gyda sancsiynau gwan yn erbyn hynny yn arwain at niwed difrifol i enw da'r Cyngor.

#### **Y SEFYLLFA AR 31 MAWRTH 2010**

- Cydnabyddiaeth o'r angen i wella ymddygiad.
- Grwpiau gwleidyddol wedi cytuno ar brotocol hunanreoleiddio.
- Llai o gwynion i'r Ombwdsmon parthed ymddygiad aelodau

#### **GWAITH MEWN LLAW I FYND I'R AFAEL Â GWENDIDAU**

- Prif grwpiau gwleidyddol yn ceisio ynysu'r rhai sy'n achosi trwbl.
- Rhaglen waith eglur i'r Pwyllgor Safonau
- Cyfranogiad aelodau i'r Pwyllgor Safonau
- Gwelediad a Chyfranogiad y Pwyllgor Safonau
- Adolygu Protocol Aelodau/Swyddogion

**EGWYDDOR CHWECH: CANOLBWYNTIO AR BWRPAS YR AWDURDOD AC AR Y CANLYNIADAU I'R GYMUNED A CHREU GWELEDIGAETH I'R ARDAL LEOL**

**TREFNIADAU CYFFREDINOL**

Y Cynllun Gwella'n nodi amcanion y Cyngor. Perfformiad nifer o'r gwasanaethau yn dda.

**AROLWG LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, GORFFENNAF 2009**

Yn beirniadu'r awdurdod oherwydd diffyg cyfeiriad strategol.

**SEFYLLFA AR 31 MAWRTH 2010**

- Blaenoriaethau strategol newydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor ym Mawrth 2010, yn dilyn ymgynghori gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid.
- Cynlluniau busnes wedi'u cysylltu i'r blaenoriaethau hynny.

**GWAITH MEWN LLAW I FYND I'R AFAEL Â GWENDIDAU**

- Cryfhau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol
- Datblygu Gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaeth Lleol
- Arweinyddiaeth 'Ynys Ynni'
- Cynllun Gwella Corfforaethol.

Arwyddwyd .....  
**DAVID BOWLES**  
**RHEOLWR GYFARWYDDWR DROS DRO**

Arwyddwyd .....  
**CYNG. CLIVE McGREGOR**  
**ARWEINYDD Y CYNGOR**

**14 RHAGFYR 2010**

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Rydym wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad Symud ar Falans Cronfa'r Cyngor, Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, Mantolen, Datganiad Llif Arian Parod, Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai. Paratowyd y datganiadau cyfrifyddu o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir yn y Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gyngor Sir Ynys Môn yn unig yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid at unrhyw ddiben arall, fel y nodir yn y *Datganiad o Gyfrifoldebau* a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Nodir cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009 yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Cyflwynwn adroddiad i chi ar ein barn o ran p'un a yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg o'r canlynol, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009, sefyllfa ariannol y corff llywodraeth leol a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Adolygwn a yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â *'Delivering Good Governance in Local Government: Framework'* a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007. Nodwn os nad yw'n cydymffurfio ag arferion cywir a nodir gan CIPFA/SOLACE neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rydym yn ymwybodol ohoni o'n harchwiliad. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried, ac nid ydym wedi ystyried, p'un a yw'r Datganiad Llywodraethu yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau. Ac nid yw'n ofynnol i mi/ni lunio barn ychwaith ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y corff llywodraeth leol na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Rydym yn darllen gwybodaeth arall a gyhoeddir gyda'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ac yn ystyried p'un a yw'n gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a archwiliwyd a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y Rhagair Esboniadol. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os deawn yn ymwybodol o unrhyw gamdatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.



**Sail y farn archwilio**

Cynhaliais/Cynaliasom ein harchwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y corff llywodraeth leol wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu, a ph'un a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r corff llywodraeth leol yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chynhaliwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen yn ein barn ni i roi tystiolaeth ddigonol i ni roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall. Wrth lunio ein barn rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn**

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2010 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009.

**Tystigrif Cwblhau**

Fe gwblhawyd yr archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol a gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ni ellir cwblhau'r archwiliad yn ffurfiol, na rhyddhau'r tystigrif archwilio, nes y cwblhai'r ymchwiliadau ynglyn a gweinyddiaeth grantiau adnewyddu. Rydym yn fodlon nad yw'r swm, sydd dan ymchwiliad, yn cael effaith perthnasol ar ddatganiad cyfrifon 2009/10.

PricewaterhouseCoopers LLP  
Un Ffordd y Brenin  
Caerdydd  
CF10 3PW  
Dyddiad :

Cyfrifoldeb yw corff llywodraeth leol yw cynhaliaeth a cywirdeb gwefan Cyngor Sir Ynys Môn, nid yw gwaith yr archwilydd yn cynnwys ystyried y materion hyn a, felly, nid yw'r archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai wedi digwydd i'r datganiad o'r cyfrifon ers iddo gael ei roi ar y wefan yn wreiddiol.